

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 527 · Ionawr 2022 · 50c

Cefn Bedw wedi dod i'r golwg – canfod olion hen dŷ ffarm

O ganlyniad i'r cloddio yng Nghae Rhosydd ar gwr pentref Rachub gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd, mae olion o sawl cyfnod wedi eu canfod. Un o'r canfyddiadau hynod ddiddorol ydi olion hen ffermdy Cefn Bedw, a bellach mae modd gweld gweddillion sawl rhan o'r adeilad, ac mewn rhannau eraill o'r cae mae olion buarth, lôn drol, terfynau hen gaeau, a chorlan o bosib.

Ymhith y nodweddion yn safle'r tŷ ffarm ei hun mae congffeini, cerrig sylfaen, gwaelodion muriau efo plastr arnynt, lle tân efo carreg aelwyd a gweddillion popty neu sychwr grawn, a cheuffos lechi o dan y llawr. Yn ôl yr archaeolegwyr, nid cael ei adael i droi'n furddun fu tynged yr adeilad, ond cael ei ddymchwel. Bu fferm Cefn Bedw yn perthyn i stad Coetmor cyn mynd yn rhan o stad y Penrhyn, ac ni wyddom hyd yma pam y cafodd y tŷ ffarm a'r beudai eu dymchwel gan stad y Penrhyn.

Mae'r garreg aelwyd yn hynod drawiadol gan ei bod wedi ei duo ac yn frith o holltiadau – effaith fflamau a gwres y tân dros genedlaethau. Mae map o blwyf Llanllechid yn 1822 yn nodi'r tŷ ffarm a'r beudai, a gallwn ddychmygu teulu ddau gan mlynedd yn ôl yn mynd ynglŷn â'u gofalon dyddiol ar y fferm ac yn dod at ei gilydd o flaen y tân gyda'r nosau.

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd wedi



Yr hen garreg aelwyd



Yr hen le tân

bod yn derbyn plant ysgol i'r safle i gael gwybod am y gwahanol ganfyddiadau a dysgu am sgiliau archaeoleg – y gwaith cloddio a'r ymchwil – a gwyb o beth ydi hynny. Ystyrir Cae Rhosydd yn safle arbennig oherwydd bod olion o sawl cyfnod wedi dod i'r golwg, gan gynnwys olion tai crynion y Brythoniaid a chrochenwaith Rhufeinig.

Cewch fwy o hanes Cefn Bedw y tu mewn.

Lluniau: hawfrint Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd.

Panel Golygyddol

Ieuan Wyn
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

Lowri Roberts
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

Neville Hughes
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

Rhodri Llŷr Evans
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

Owain Evans
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

Carwyn Meredydd
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

Rhys Llwyd
(Ffôn 01248 601606)
rmll42@live.co.uk

Swyddogion

CADEIRYDD:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

TREFNYDD HYSBYSEBION:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

YSGRIFENNYDD:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

TRYSORYDD:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ (Ffôn 600872)
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y LLAIS DRWY'R POST:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Ieuan Wyn**.

Y golygyddion ym mis **Chwefror** fydd **Walter a Menai Williams**,
14 Erw Las,
Bethesda, LL57 3NN.
01248 601167
E-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 29 Ionawr** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
Nos Iau, 17 Chwefror
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

DALIER SYLW: NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan

Gwobrau Ionawr

£30.00	(23)	Selwyn Owen, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
£20.00	(95)	Karen Aston, Erw Las, Bethesda.
£10.00	(54)	Iris Harper, Llandygai.
£5.00	(102)	Dafydd Gwilym Jones, Pant Glas, Bethesda.

Diolch yn fawr



Rhoddion i'r Llais

- £10.00 Shirley Pritchard, Pant Glas, Bethesda.
- £4.50 Margaret Jones, Pen y Graig, Bethesda.
- £3.50 Mân Roddion
- £20.00 Er cof am Beti Lewis, Abergynolwyn, gan Ifor, ei gŵr.
- £50.00 Er cof am Caeron a Nancy Roberts, Erw Faen, gan Jois a Bryn.

Diolch yn fawr

Pentir

Cynrig a Carys Hughes,
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318)
carys16@hotmail.com

Cydymdeimlad

Hoffem anfon ein cofion at Mair Griffiths, Bryn Glas sydd wedi colli ei brawd, Gwynfor, yn ddiweddar.

Canu Carolau

Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig cyfarfu nifer da o ardalwyr a ffrindiau ar sgwâr Pentir i ganu carolau. Roedd danteithion a diod gynnes wedi ei baratoi a oedd yn ychwanegu tuag at yr awyrgylch gymdeithasol. Diolch i Michelle am drefnu ac i Cefin a Lucy am arwain y dorf. Mae Covid 19 wedi golygu nad yw'r gymuned wedi gallu trefnu digwyddiadau fel yn y gorffennol. Roedd yr achlysur yma'n gyfle gwych inni gyfarfod ac i atgoffa ein hunain o'r hyn rydym wedi ei golli yn ystod y deunaw mis olaf.

Ffenestri Adfent

Mae llunio ffenestri Adfent wedi datblygu i fod yn draddodiad blynyddol erbyn hyn ym Mhentir a Rhyd-y-Groes. Cafwyd arddangosfa hyfryd eto'r flwyddyn hon a diolch i bawb gymerodd ran am eu cefnogaeth.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604). Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:-
Gareth Llwyd – 601415
Neville Hughes – 600853

Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

www.llaisogwan.com
Trydar: @Llais_Ogwan

Llythyrau

Annwyl Ddarllenwyr,
Cronfa Ymddiriedolaeth William Salesbury
Byddwn ni'n anghofio weithiau pa mor lwcus yr ydym ni ein bod ni'n gallu siarad Cymraeg. Am fraint. Mae hi'n hawdd digalonni am ei dyfodol, ond mae 'na gymaint o enghreifftiau o siaradwyr yn ymhyfrydu ynddi ac yn prysuro i'w defnyddio.

Dyna sy'n rhoi cymaint o bleser i ni fel aelodau Ymddiriedolaeth William Salesbury – cael cefnogi a dathlu ein pobl ifanc sydd wedi dewis astudio eu haddysg ôl-16 trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

Gweledigaeth y diweddar Dr Meredydd Evans – Merêd i'w gyd-Gymry – oedd y gronfa. Ei nod – galluogi pobl Cymru i gefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn ffordd ymarferol.

Cafodd yr ymddiriedolaeth ei henwi ar ôl William Salesbury, cyfieithydd y Testament Newydd i'r Gymraeg yn 1567, oherwydd

iddo annog ei gyd-Gymry yn ei ymadrodd 'Mynnwch ddysg yn eich iaith.'

Sefydlwyd y gronfa yn 2012 a darparodd naill ai ysgoloriaethau neu wobrau i ryw ddwsin o fyfyrwyr hyd yn hyn.

Mae'r Coleg Cymraeg yntau yn mynd o nerth i nerth ac wedi derbyn cefnogaeth sylweddol ychwanegol yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfraniad yr Ymddiriedolaeth i'r gwaith hwnnw yn fodd o ategu'r genhadaeth a rhoi hwb ychwanegol i'r genadwri. Mae'n dangos hefyd fod yna bobl ledled Cymru yn awyddus i ddangos eu cefnogaeth nhw i'r gwaith trwy gyfrannu yn ariannol mewn amryfal ffyrdd.

Crëwyd y gronfa trwy: Gynnal digwyddiadau/Annog unigolion i gyfrannu yn rheolaidd trwy orchymyn banc neu trwy gyfraniadau unigol/Apelio at gyrff Cymraeg, a'u haelodau, i gyfrannu/Y llog o Gronfa Fuddsoddi yr elusen.

Os hoffech chi gyfrannu at y gronfa gallwch gysylltu'n uniongyrchol â'r Trysorydd, Arwel Jones ar rocetarwel@yahoo.com. Os hoffech chi i un ohonom ddod i siarad â'ch cymdeithas neu gymuned, rhowch wybod trwy e-bostio ysgrifennydd@cronfasalesbury.org

Yr ydym ni, yr Ymddiriedolwyr presennol, yn awyddus i ychwanegu o leiaf ddau ymddiriedolwr newydd at ein rhengoedd. Ceir manylion ar wefan y Coleg Cymraeg, ar wefan YWS neu ceir manylion gan y Trysorydd.

Mae'r ymddiriedolwyr yn awyddus i ychwanegu o leiaf dau ymddiriedolwr newydd at y rhengoedd ac yn awyddus i annog unigolion gyda sgiliau yn y meysydd canlynol i ddangos diddordeb: ariannol (economeg, cyfrifydddeg, mathemateg)/cyfreithiol/asesu a thafoli (wrth arholi neu werthuso perfformiad)/hyfforddiant academaidd ôl-16 ac addysg uwch.

Nid yw'r gwaith yn feichus,

rhyw 3 neu 4 cyfarfod y fwyddyn, ond yn hytrach ceir cyfle i fod yn rhan o genhadaeth bwysig sy'n greiddiol i ffyniant y Gymraeg yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae ymrwymiad yr ymgeisydd i ffyniant a thwf yr iaith Gymraeg yn hanfodol.


Hoffem fel ymddiriedolwyr presennol sicrhau ein bod yn gallu cynnwys yn ein plith unigolion o amrywiol gefndiroedd er mwyn adlewyrchu cyfoeth cymdeithasol y Gymru gyfoes.

Oes oes gennych ddiddordeb dylech anfon CV byr at Y Trysorydd rocetarwel@yahoo.com.
Dyddiad cau 31.01.22.

Yn gywir,
Ann Beynon (Cadeirydd), Rhian Huws Williams (Ysgrifennydd), Arwel Jones (Trysorydd), John Gwilym Jones, Dafydd Iwan, Ieuan Wyn, Menna Machreth, Owain Schiavone.



Dwyn yn Nes ein Hanes Ni



Cofiwch ddilyn gwefan Hanes Dyffryn Ogwen – er mwyn cael gwybod mwy am ein hen hanes a'n hanes diweddar fel cymdeithas. Mae'r wefan dan ofal John Llywelyn Williams a Lowri Williams, ac mae hi'n llawn gwybodaeth ddiddorol a difyr ar bob agwedd ar fywyd ein hardal.

Mae hi'n werth ymweld â'r wefan werthfawr hon yn rheolaidd gan fod arni nodiadau ac erthyglau o safon ar hanes diwydiannol, amaethyddol, crefyddol a diwylliannol Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau – cyfle i ganfod y gorffennol, a deall mwy am yr hyn sydd wedi creu'r gymdeithas yr ydan ni'n rhan ohoni heddiw.

Mae'r deunydd diweddaraf yn trafod y canlynol: **Dôl Ddafydd, Porth Penrhyn, Braichmelyn, Hafoty Famaeth a Hafoty Lowri.**

Mynydd Llandygái

Iona Rhys, Cwm Hyfryd, 9 Gefnan
(602863) ionarhys@yahoo.co.uk
Ffion Jones, 1 Llwybr Main
Ffiff22@hotmail.com



Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Gylch Meithrin Mynydd Llandygái sydd wedi derbyn Coeden Afal Gymreig Enlli i ddathlu Pen-blwydd Mudiad Meithrin yn 50. Roedd y plant wrth eu boddau yn plannu'r goeden ac maent yn edrych ymlaen i'w gweld yn tyfu!



Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo,
16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
(01248 354280)

Newid aelwyd

Croeso cynnes i Ann a David Wilson i'r pentref. Maent wedi symud i 'Nilgri' o Fae Trearddur. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Cinio Nadolig

Aeth criw ohonom i'r Clwb Criced am ginio Dolig yn ystod mis Rhagfyr. Roedd pawb wedi mwynhau, ac yn hapus cael gweld ein gilydd. Diolch i Liz Jones am drefnu.

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

Eglwys Sant Tegai, Llandygái

Blwyddyn Newydd Dda!

Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Nyffryn Ogwen. Mewn amser mor anodd dymunwn hedd, hapusrwydd ac iechyd da i chi a'ch teuluoedd. Mae ein meddyliau a'n gweddïau gydag aelodau o'r gynulleidfa sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbty yn ddiweddar neu mewn iechyd bregus.

Gwasanaeth Carolau ar y Cyd

Cafwyd cyfle bendithiol i gynulleidfa St Tegai ddathlu'r Nadolig pan estynnwyd gwahoddiad gan Eglwys St Cross Talybont i gynnal gwasanaeth carolau ar y cyd ar Ragfyr 19. Cynlluniwyd rhaglen amrywiol o garolau, darlleniadau traddodiadol a darnau o farddoniaeth gyfoes gan Catrin Hobson, y Warden, a Geraint Gill, yr organydd. Arweiniwyd yr achlysur gan yr Hybarch Mary Stallard. Cafwyd cyfraniadau gan ddarllenwyr o Dalybont ac o Eglwys Llandygái. Felly, er bod adeilad yr eglwys ar gau am yr ail Nadolig ac na chafwyd ein gwasanaeth carolau traddodiadol, roedd ysbryd y Nadolig yn fyw ymhlith cynulleidfa St Tegai drwy garedigrwydd ein ffrindiau.

Diolch Arbennig

Diolch yn fawr i aelodau a ffrindiau eraill yr eglwys yn y pentref ac yn yr ardal am eu cyfraniadau i Apêl Nadolig Eglwys Sant Tegai. Bydd yr arian ychwanegol yn helpu i barhau gyda'r gwaith sylweddol o atgyweirio adeilad pwysig o'r Canol Oesoedd. Cafwyd ymateb ardderchog hyd yn hyn, a braf oedd cael derbyn rhoddion hael gan bentrefwyr neu ffrindiau o

ardaloedd eraill sydd ddim yn angenrheidiol yn addolwyr cyson ond yn barod i helpu mewn cyfnod o argyfwng neu angen. Bydd yr eglwys, wrth gwrs, yn dal ar gau drwy gydol misoedd y gaeaf a gwanwyn 2022 pan gobeithir y bydd y gwaith gohiriedig yn mynd ymlaen ar y waliau mewnol ger yr allor. Diolch i eglwysi Bro Ogwen am eu croeso parod i gynulleidfa St Tegai. Gweler manylion unigol am wasanaethau gan Eglwysi St Cross Talybont, St Cedol Pentir, Crist Glanogwen, Gelli Tregarth a St Fair Mynydd Llandygái. Diolch i Mary Stallard am y myfyrdodau wythnosol.

Cydymdeimlo

Yn y gwasanaeth ar Ddydd Gŵyl Sant Steffan clywsom y newydd trist fod yr Archddiacon Mary Stallard wedi colli ei thad-yng-nghyfraith yng Nghasnewydd. Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf i'r teulu yn eu profedigaeth.

Llywodraethwyr Ysgol Llandygái

Mewn cyfarfod diweddar o Microsoft Teams ar-lein bu cyfle i gynrychiolwyr yr eglwys ar Gorff Llywodraethol Ysgol Llandygái longyfarch a diolch i'r Pennaeth, Mr Elfed Morgan Morris, staff a disgyblion yr ysgol am eu gwaith caled yn ystod tymor anodd y Nadolig.

Manylion Cyswllt

Tra bo eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am benodiad ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

Oble ddaeth yr enw 'Ionawr'?

Mi gawson ni'r enw 'Ionawr' gan y Rhufeiniaid drwy'r iaith Ladin. Roedd gan y Rhufeiniaid lawer o dduwiau, ac un ohonyn nhw oedd Janus. Câi ei ddarlunio fel dyn efo dau wyneb, un yn edrych yn ôl a'r llall yn edrych ymlaen. Nid rhyfedd, felly, i bobl roi ei enw ar y mis sy'n agor y flwyddyn newydd.

Ar Ddydd Calan, diwrnod cyntaf y mis, byddai plant yn arfer mynd o dŷ i dŷ yn 'hel calennig' ac yn derbyn ychydig o bres yn rhodd. Mae'r enwau 'calan', 'calennig' a 'calendr' yn perthyn i'w gilydd ac maen nhw hefyd yn dod o'r Lladin 'calendae', a'i ystyr ydi diwrnod cyntaf y mis. Mae gennym 'Calan gaeaf' a 'Calan Mai' hefyd.

Ar y 6ed o'r mis mae Nos Ystwyll, sef y ddeuddegfed noson ar ôl y Nadolig, a



dyma ddiwedd tymor y dathlu. Daw'r enw 'ystwyll' eto o'r Lladin, sef o'r gair 'stella' (seren) ac mae'n coffáu'r baban Iesu yn cael ei weld gan y Doethion a oedd wedi dilyn seren i'w ganfod. Enw arall ar Nos Ystwyll ydi Serenwyl neu Seren-ŵyl.

Adduned y Flwyddyn Newydd

gan Rob Evans

’Dach chi’n gwneud addunedau’r Flwyddyn Newydd? Flynyddoedd yn ôl ar y 1af o Ionawr, y cwestiwn mawr oedd “Wyt ti wedi gwneud adduned Blwyddyn Newydd?” a’r cwestiwn yna yn cael ei ddilyn efo “A beth wyt ti wedi penderfynu?”

Diolch byth doedd dim llawer o bobl yn gofyn ychydig o wythnosau wedyn “Sut wyt ti’n gwneud efo dy adduned?” Pan o’n i’n ifanc ac yn hollol ffôl, yr adduned bob blwyddyn oedd rhoi’r gorau i ’smygu. Roedd rhoi’r gorau i ’smygu yn hawdd iawn – mi wnes i hynny lawer gwaith! Ond y tro olaf oedd yr un bwysig, yr un sydd wedi parhau hyd heddiw.

Dw i ddim yn clywed llawer am yr arferiad y dyddiau yma. Ydy pobl yn dal i’w wneud? Achlysur od iawn yw’r flwyddyn newydd, mae fel bod chi’n cael tudalen lân ar y 1af o Ionawr a dyna eich cyfle i newid eich ffordd o fyw. Wel, tydi pob diwrnod yn rhoi tudalen lân i chi, neu bob awr a phob munud? Wrth gwrs eu bod nhw! A diolch byth am hynny achos mae’n annhebyg eich bod chi’n darllen yr erthygl yma ar Ionawr y cyntaf.

Mae dwy fath o adduned, yr addewid i beidio â gwneud rhywbeth o hynny ymlaen neu’r addewid i wneud rhywbeth. Dydy hi ddim yn bwysig ba bynnag ddewis ’dach chi’n ei wneud. Ei wneud, a’i gadw, sydd yn bwysig.

Fel pob un ohonoch chi dw i wedi cael fy effeithio gan yr hen pandemig creulon yma ond dw i’n falch o ddweud nad effaith gwael dw i wedi ei gael. Mae’n wir i ddweud roeddwn i wedi cael fy rhwystro i dreulio amser yn cerdded cefn gwlad yn y dyddiau cynnar, a dw i wedi dod i arfer â pheidio

mynd mor aml. Dyna’r effaith negyddol. Ond mi oedd effaith cadarnhaol hefyd. Chi’n gweld, dw i ddim yn hapus os nad oes gen i rywbeth i’w wneud ac roedd y syniad o fod dan glo am fis braidd yn hunllefus. Beth alla i wneud? Flynyddoedd yn ôl pan o’n i’n diwtor ym Mhowys, roeddwn i’n cyhoeddi cylchlythyr i ddysgwyr o’r enw *Y Wennol* ac roeddwn yn mwynhau’r profiad.

Tybed a fyddwn i’n gallu atgyfodi’r cylchlythyr? Roeddwn i’n adnabod llawer o ddysgwyr trwy Gymdeithas Edward Llwyd a hefyd drwy grŵp oedd yn cyfarfod yn wythnosol yn yr ardal.

Anfonais neges atyn nhw i esbonio’r syniad a gofyn a fydden nhw’n fodlon ysgrifennu erthyglau. O fewn tair wythnos, ces i ddigon i lenwi chwe thudalen ac roedd y cylchlythyr allan at bawb o’n i’n eu hadnabod oedd yn siarad Cymraeg erbyn Ebrill 1af.

Mae’n dal i fynd ymlaen, a dyma fi wedi cyhoeddi rhifyn mis Ionawr erbyn hyn, ac erbyn mis Mawrth bydd *Y Wennol* wedi cyrraedd ei ail ben-blwydd. Mae 15 dudalen ynddo erbyn hyn a llawer mwy o ddysgwyr yn cyfrannu.

Nid pwrpas yr erthygl hon yw dweud jôc am ba mor hawdd yw hi i roi’r gorau i ’smygu. Na, yn hytrach i bwysleisio gwerth cael dysgwyr i’n cymunedau a’n cymdeithasau – maen nhw’n barod i gyfrannu, yn wir maen nhw eisiau cyfrannu.

Edrychwch ar oedran aelodaeth eich cymdeithasau a gofynnwch faint fydd yn dal yna mewn deng mlynedd. Dw i’n sicr y byddech chi’n gweld bod rhaid i chi gael aelodau newydd, aelodau brwdfrydig.

Mae’r bobl fydd yn achub ein cymdeithasau, ein cymunedau a’n hiaith yna yn eich dosbarth nos lleol. Gwnewch yn siŵr eich bod chi’n dod i adnabod eich tiwtor lleol er mwyn i chi agor eich drysau i’ch dysgwyr.

Os ydyn nhw yn ein cymunedau, byddan nhw’n gwneud gwahaniaeth. Trefnwch fore coffi iddyn nhw yn rheolaidd a rhoi’r cyfle iddyn nhw ddod i’ch adnabod chi. Ni fyddwch yn difaru!

Glasinfryn a Chaerhun

Mair Griffiths, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

Nadolig yn y Dyffryn

Yn ystod wythnos y Nadolig daeth ymwelydd go arbennig i ymweld â phlant y Dyffryn, sef Siôn Corn a’i Gorachod! Yr oedd wedi cychwyn ei daith ar ei sled ym Mraichmelyn gan alw yn y pentrefi cyfagos cyn gorffen yng Nghefnfaes. Yr oedd plant yr ardal yma, sef Pentir, Caerhun a Glasinfryn wedi cyffroi o gael gweld a sgwrsio efo Siôn Corn! Diolch o galon i aelodau Carnifal Bethesda am drefnu’r daith.

Noswyl y Nadolig cafwyd Gwasanaeth y Preseb yn Eglwys Glanogwen. ’Roedd y gwasanaeth hwn yn arbennig i’r plant yn adrodd hanes y geni gyda charolau hyfryd. Braf iawn oedd cael bod yn rhan o’r gwasanaeth yn dathlu gwyrystyr y Nadolig, a’r plantos yn mwynhau gwranddo ar y stori wedi ei hadrodd yn ddifyr gan yr Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, a’r Parchedig Sarah Roberts. Diolch yn fawr iawn i bawb am drefnu’r gwasanaeth hwn yng nghanol prysurdeb y Nadolig.

Canolfan Glasinfryn

Bydd yn rhaid gohirio’r Cyfarfod Blyneddol a oedd wedi ei drefnu ar gyfer 8 Ionawr oherwydd sefyllfa Covid-19 ar hyn o bryd, gyda chymaint o achosion o’n cwmpas. Gobeithir cael ail-drefnu cyfarfod ym mis Mawrth.

Newyddion i’r Llais

Buaswn yn dra diolchgar o dderbyn newyddion i’r *Llais* os gwelwch yn dda, yn enwedig o Lasinfryn. Gallwch anfon newyddion ataf gydag e-bost neu ffôn fel yr uchod. Diolch.



Ogwen

Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation

Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein
☎ 07743373895 ✉ Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

STEPHEN JONES TREFNWR ANGLADDAU CYF



PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS



BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)

Joe Hughes, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
(601902)

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Jean Cross, Adwy'r Nant, ar achlysur hapus dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 11 Rhagfyr.

Ysbyty

Cofion cynnes at y rhai a fu yn yr ysbyty yn ystod mis Rhagfyr. Da deall eich bod yn gwella, sef:

Mrs Rhiannon Hughes, Lôn Sarnau; Mr Phillip Williams, Allt Penybryn a Mrs Gwenno Evans, Stad Coetmor.

Cydymdeimlo

Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ystod mis Rhagfyr. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad atynt i gyd.

Mr a Mrs Paul Phillips, Cara a Harri, Erw Las, wedi colli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl ddechrau Rhagfyr yn Sir Fôn.

Mr Andrew Griffiths, Maes y Garnedd, wedi colli ei chwaer yng nghyfraith yn Rachub, sef Amanda Jayne Griffiths yn 48 mlwydd oed, ar 8 Rhagfyr. Cydymdeimlwn hefyd â'i phriod, Stephen a'r plant, Katie, Sophie a Derek.

Eluned a'r teulu, Pant Glas, wedi colli nain a hen nain annwyl yn y Bala, sef Mrs Sulwen Davies a fu farw ar 14 Rhagfyr.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Huw Williams a'r teulu (Erw Las) a Mr Myrddin Williams a'r teulu (Capel Uchaf, Clynnog Fawr) yn eu profedigaeth o golli eu chwaer, Olwen.

Marwolaethau

Clive Jones
Ar 13 Rhagfyr yn ei gartref, 13 Pant Glas, bu farw Mr Clive Jones yn 68 mlwydd oed. Roedd yn fab i'r diweddar Mr a Mrs Gwilym Jones, a brawd a brawd yng nghyfraith i Nerys a Gwynfor, Braichmelyn. Roedd hefyd yn ewythr i Siôn a Louise; Gareth; Rhys a Haf; ac yn hen ewythr i Erin, Owain, Osian ac Aron. Hyd at ei ymddeoliad bu'n gweithio i gwmni Blake & Arnold, Llandygái. Ei hoff ddiddordeb oedd pysgota.

Cynhaliwyd ei angladd fore Gwener, 31 Rhagfyr, yn Amlogfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Ddr. Huw John Hughes, gyda Mrs Christine Davies wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chwi oll fel teulu.

Gorffwysfan

Ar ddydd Gwener, 17 Rhagfyr, cafwyd cinio Nadolig y clwb yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Wedi'r cinio cafwyd raffl ardderchog. Diolch i bawb a ddaeth â gwobrau. Diolchwyd i bawb am y trefniadau gan Joe Hughes. Gobeithir cynnal y cyfarfod blyneddol ddiwedd mis Chwefror, ac ail-ddechrau'r Pêl Bonws ddechrau Mawrth.

Taith Siôn Corn

Ar noson hynod o wlyb cynhaliwyd Taith Siôn Corn a drefnwyd gan bwyllgor Carnifal Bethesda. Er y tywydd ac er mwyn peidio siomi plant (a phobl) yr ardal roedd Siôn Corn a'i weision yn hollol barod i fynd ymlaen â'r trefniadau. Felly, cadwyd i'r map a gafwyd o'r daith o amgylch y pentrefi.



Roedd Siôn Corn a'i weision yn barod iawn eu gwên ar hyd y daith ac yr oedd yn werth gweld ymateb y plantos. Diolch yn fawr i bawb yn ifanc ac yn hŷn a ddaeth allan i gefnogi ac am eu haelioni.

I'r rhai na fentrodd, roedd gwranddo ar adroddiad fyw Paula Owen, oedd yn teithio mewn car o flaen Siôn Corn, yn werth ei glywed ar y gweplyfr. On'd ydy Paula yn adnabod pawb a'u plant? Diolch am yr hwyl, Paula.

Oherwydd y tywydd ni fu'n bosib i ganu carolau ar fuarth Canolfan Cefnfaes fel a drefnwyd, ond bu i'r pwyllgor wneud y gwaith pwysig o ddewis pwy fyddai yn cymryd rhan amlwg yng ngharnifal mis Mai. Defnyddiwyd rhaglen deg er mwyn gwneud y dewisiadau ac roedd gan enw pob plentyn rif arbennig ac roedd olwyn yn troi i ddewis rhif. Dyma nhw'r canlyniadau:

- Brenhines - Nel Glyn Roberts
- Brenin - Cian John Roberts
- Tywysoges - Marilena D'Amora
- Tywysog - Mabon Burgess. Mwy o newyddion y mis nesaf.

Prydferthwch ein Hardal yn Denu Arlunwyr

Rydan ni sy'n byw yn Nyffryn Ogwen wedi ein breintio â thirwedd nodedig o hardd, a dydi o ddim yn syndod fod cynifer wedi mynd ati i gyfleu ein hamgylchedd naturiol drwy gelfyddyd – yn feirdd, llenorion ac arlunwyr.

Daeth nifer o arlunwyr o Loegr i fyw yn Nyffryn Conwy yn y 19eg ganrif, a chan fod nifer dda ohonyn nhw wedi ymgartrefu ym Metws y Coed roedd Dyffryn Llugwy, Nant y Benglog a Nant Ffrancon yn ddigon agos, ac yn ddigon deniadol o ran eu golygfeydd, iddyn nhw dreulio amser yn gwneud paentiadau ohonyn nhw.

Un o'r arlunwyr hyn oedd Alfred Fontville de Breanski (Yr Ieuengaf) (1877-1957). Yn ŵr o Lundain yn wreiddiol, astudiodd yn Ysgol Gelf St. Martin ac ymwelodd â Ffrainc i astudio

arddulliau arlunwyr yno. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn paentio tirluniau yn yr Alban ac yng Nghymru. Bu hefyd am gyfnod yn paentio golygfeydd Killarney yn Iwerddon.

Dyma un o'i luniau o'r rhan yma o Eryri, 'Llyn Ogwen a'r Garn'.



Sefydlwyd1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
600633
(symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Eglwys Crist, Glanogwen

Dyma ni ar ddechrau blwyddyn arall, a phawb yn gobeithio'n fawr am flwyddyn well ar ein cyfer i gyd. Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cofiw'n yn ein gweddïau am bawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn aeth heibio, a hefyd am y rhai sydd wedi dioddef o unrhyw anhwylder ac wedi methu bod gyda'u teulu oherwydd y cyfyngiadau.

Cofiwch, os gwyddoch am unrhyw un fyddai'n fodlon helpu Ian ac Arwel yn y gwaith o glirio mynwentydd Glanogwen a Coetmor, i roi caniad i Ian ar 600931 er

mwyn trefnu dyddiad cyfleus. Cynhelir gwasanaeth Cymun bellach bob bore Sul am 11.00, a gwasanaeth byr bob bore Mercher am 10.30, a phaned a sgwrs i ddilyn. Fel arfer, mae croeso i bawb ymuno yn y gwasanaethau i gyd. Diolch i bawb am gadw at y rheolau dros y cyfnod anodd a aeth heibio, a gobeithiwn, wir, y gwelwn ddiwedd ar y cyfyngiadau cyn bo hir.

Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr:

£50: Gareth Lewis
£20: Gwyndaf Ll Owen
£20: Mrs Gwenda Bowen
Fel arfer, anfonwn ein

cofion cynhesaf at bawb yn yr ardal sydd yn unig neu'n sâl; cofiwch roi gwybod os gwyddoch am unrhyw un sydd angen gweddi, ymweliad neu Gymun yn eu cartref.

Manylion Cyswllt

Tra bo eglwysi Bro Ogwen yn disgwyl am benodiad Ficer newydd, rhaid cysylltu â'r Archddiacon, Yr Hybarch Mary Stallard, Llandudno, ar 01492 876624 ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas neu fedydd.

Cofiwch bod Barbara (600530) a Glenys (600371) ar ben arall y ffôn os am gael sgwrs.

Yr Eglwys Unedig

Oedfaon

Cynhaliwyd oedfaon yn y Capel ac ar y ffôn Suliau Rhagfyr, a chafwyd gwasanaeth Cymun hyfryd fore dydd Nadolig yng ngofal Y Parchedig R O Jones. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch a'n galluogodd i gadw'r drysau'n agored yn ystod y cyfnod anodd hwn – yn sicr cafodd pob un ohonom a gyfranogodd o'r cyfle fendith.

Y Gymdeithas

Nos Iau, Rhagfyr 9fed, cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ers Mawrth, 2020. Penderfynodd y pwyllgor y byddai'n braf cael noson i ddathlu'r Nadolig. Er mai tenau oedd y gynulleidfia oherwydd y tywydd, salwch, a phobl yn ynysu, mwynhawyd gwrando ar nifer o ddarlenniadau tymhorol gan aelodau o gapeli Bethlehem, Carmel a Jerusalem. Cafwyd hwyl ar ganu carolau, gyda Minnie Lewis yn cyfeilio. Diolch i bawb a fu'n trefnu'r cyfan.

Lladrad

Trist iawn yw gorfod cofnodi i blwm gael ei ddwyn oddi ar ran o do'r Capel yn ddiweddar. Hoffem ddiolch o galon i Sioned, Tŷ Capel, am ei hymateb prydlon a dewr i'r sefyllfa. Bellach mae'r dihirod wedi'u dal, ac yn nwylo'r heddlu – diolch iddynt hwythau hefyd am eu hymateb.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at y rhai sydd yn llesg neu'n fregus y dyddiau hyn, yn eu mysgr Mrs Gwenno Evans, sydd wedi treulio peth amser yn yr ysbyty. Cofion atoch i gyd.

Gwasanaethau:

Ionawr 16: Mrs Nerys Griffiths (5)
Ionawr 23: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Ionawr 30: Y Parchedig Mererid Mair (10)
Mr Dafydd Iwan (5)
Chwefror 6: I'w drefnu
Chwefror 13: Y Parchedig Ddr Elwyn Richards (5)
Chwefror 20: Y Parchedig Cledwyn Williams (10)
Chwefror 27: Y Parchedig Gwyndaf Jones (10 a 5)


Croeso cynnes i chwi i ymuno â ni, a chofiwch, bydd pob oedfa ar gael ar y ffôn hefyd.

Mae Blwyddlyfr 2022 bellach ar gael – os na fedrwch ddod i'w nôl o'r Capel, cysylltwch â Walter Williams (601 167) os gwelwch yn dda.

Gobeithiwn i chwi i gyd gael Nadolig wrth eich bodd. Dymunwn flwyddyn newydd dda i bob un ohonoch, a dyma emyn o waith Peter M Thomas i godi'r galon:

Fe ddaeth ddod â'i siâr o ofid,
A daeth pryder yn ei dro,
Gwelwyd hefyd haul yn gwenu,
A llawenydd yn ein bro:
Ond drwy'r lleddf a'r llon fe welwyd
Llaw yr lôr yn llywio'n bywyd
I'r yfory sy'n obaith gwiw.

Mae'r yfory heb ei brofi,
Mae ei stôr o hyd dan sêl;
Mae pob dyfais mae am gynnig
A phob profiad o dan gêl:
Ond wrth fentro 'mlaen cei flasu
Gwir anturiaeth, ac fe weli
Fod yfory'n obaith gwiw.



Marchnad Ogwen

Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid. Fe gafwyd Marchnad Nadolig Rhagfyr eitha llwyddiannus a chysidro. Diolch i bawb a ddaeth draw i Neuadd Ogwen i'n cefnogi. Dyna'r Farchnad olaf yn y Neuadd am gyfnod oherwydd gwaith adeiladu. Byddwn yn ymgartrefu yn y Clwb Criced dros dro.

Yn anffodus, bu rhaid canslo Marchnad Ionawr oherwydd Cofid – haint sy'n creu cymaint o drafferthion.

Byddwn yn cynnal Marchnad Chwefror 12fed yn y Clwb Criced – os bydd y niferoedd Cofid yn caniatáu. Bydd gwybodaeth ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar [facebook](#).

Marchnad Ogwen

Chwefror 12fed
9.30am - 1pm
Mawrth 12fed
9.30am - 1pm

Yn y **CLWB CRICED** a **BOWLIO**

Bywydd,
Crefftâu, Lleoli

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

Arfbais Douglas Arms

Cwrw Casgen - Gardd Gwrw

ORIAU AGOR

Sul, Llun a Mawrth – wedi cau
Mercher, Iau a Gwener 18.00 – 23.00
Sadwrn 15.30 – 23.00

01248 602537


CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Difyrion Digidol



Ydych chi'n gwirfoddoli gyda phapur bro, mudiad, cymdeithas hanes neu eisteddfod leol ac yn ei chael hi'n anodd i ddygymod gyda thechnoleg? Ydych chi'n gweld technoleg fel rhwystr? Ni ddylai hynny orfod bod. Nid oes raid i chi wirioni efo technoleg, mae technoleg ar gael i wneud bywyd yn haws mewn sawl ffordd. Mae pawb dwi'n siwr wedi hen arfer defnyddio rhaglen prosesydd geiriau fel Word ond dwi am son am rywbeth sydd o bosib am wneud eich bywyd yn llawer haws. Ers blynnyddoedd, dwi wedi bod yn cynghori pobl i ddefnyddio naill ai Google Workplace neu wasanaethau Microsoft Outlook ar-lein. Mae'n rhaid imi ddweud fod Google Workplace ac Outlook yn gallu bod yn ddefnyddiol dros ben.

Mi wna' i ddechrau gyda Google Workplace. Pan fyddwch wedi creu cyfrif ebost Gmail gyda Google am y tro cyntaf, yr ydych o ganlyniad yn gallu manteisio ar holl wasanaethau Google – sy'n cynnwys apiau dirifedi ar gyfer eich ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur o flaen desg. Pan fydd ebost wedi ei greu, wrth fynd i brif dudalen Google sef yr enwog www.Google.com, ymhen ucha'r sgrin ar y dde, mae yna 9 dot, cliciwch neu bwyswch arnynt ac fe fydd yn agor ffenest fach arall sy'n aros o fewn Google, fe geir rhestr hir o apiau – dyma ydi'r Google Workplace –

apiau sy'n cynnwys Google Maps, Play, Drive, Docs, Sheets, Calendar, i enwi dim ond rhai. Mae Google Maps wrth gwrs yn gallu bod yn sat nav amgen defnyddiol pan ydych yn teithio i rywle yn eich car neu'n cerdded. Ond dwi'n hoff iawn o ddefnyddio Google Drive sy'n wagle neu'r 'Cwmwl' ar gyfer cadw dogfennau o bob math, o ddogfennau Word i gyflwyniadau sleid. Gyda Google Docs sydd am ddim, mae'n bosib creu eich dogfen prosesydd geiriau yno – gan ei fod yr un fath a Microsoft Word. Mi fedrwnch greu ac arbed dogfen yn yr un lle a'i gadw yno. Mae'n bosib i drosi'r ddogfen yn ddogfen Word ar eich cyfrifiadur. Mae'n ddefnyddiol tu hwnt pan ydych angen cydweithio ar ddogfen – dim mwy o greu degau o fersiynau drafft gwahanol wedi eu hatodi ar ebost, sy'n drysu pawb, gellir gweithio ar ddogfen ar y cyd ar yr un pryd, heb golli dim gan ei fod yn arbed yn awtomatig.

Os ydi rhywbeth wedi cael ei newid ond eich bod eisiau dychwelyd i fersiwn flaenorol, mae'n bosib gwneud hynny. Dwi'n siwr fod y rhan fwyaf ohonoch yn defnyddio Word i greu dogfennau prosesydd geiriau ers dros 25 mlynedd a mwy, ond mae hyn yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio'n llwyr. Ac mae'n bosib i weithio ar ddogfen o bell ar yr un pryd. Mae Google Sheets yr un fath yn union ag Excel ac mae o hefyd am ddim, ac yn berffaith os ydych angen llunio rhestr aelodaeth ar gyfer eich cymdeithas leol er enghraifft. Mae'r ap Google Calendar yn ffordd effeithiol o reoli eich dyddiadur, drwy drefnu cyfarfodydd, galluogi nodyn i'ch atgoffa am unrhyw beth, apwyntiadau

a gwahodd eraill i gyfarfod. Nid Google yn unig sy'n cynnig gwasanaeth fel yma, mae'n bosib manteisio ar wasanaethau tebyg iawn trwy gyfrif ebost Microsoft Outlook (<https://outlook.live.com/>) ac nid oes raid talu neu gael y fersiwn ddiweddaraf o Microsoft Office ar eich cyfrifiadur, mae o i gyd am ddim ar-lein, o Excel, Powerpoint i Microsoft Word a Calendar a llawer mwy. Er mwyn manteisio ar yr rhain, mae angen logio fewn i'ch ebost Outlook, fe geir 9 dot yn mhen ucha'r sgrin ar y chwith yn nhudalen yr Inbox, cliciwch/pwyswch arnynt ac fe ddaw rhestr o'r apiau i gyd. Mae'r cyfan i gyd ar gael naill ai ar gyfrifiadur o flaen desg, apiau wedi'u llawrlwytho trwy Google PlayStore ar dabled neu ffôn clyfar. Os nad ydych eisiau defnyddio Word oherwydd Microsoft, mae LibreOffice <https://www.libreoffice.org/> yn cynnig yr un math o raglen prosesydd geiriau heb orfod defnyddio gwasanaethau'r cwmnïau mawr, sydd yn gwbl dddealladwy. Ewch amdani i arbrofi, archwilio, creu, cydweithio. Mae'r gwasanaethau hyn yn bendant yn gwneud bywyd yn haws imi, a dwi'n siwr y bydd yn ddefnyddiol i chithau hefyd. Triwch nhw! Cofiwch gysylltu os hoffech sgwrs am hyfforddiant ac i drafod yr hyn y medrwn ei gynnig, cysylltwch gyda mi ar deian.apRhisiart@wales.coop

PLAID LAFUR DYFFRYN OGWEN

Ar ddechrau mis Rhagfyr, cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Etholaeth Arfon yn rhithiol, gydag aelodau o Ddyffryn Ogwen yn bresennol - yn bennaf i drafod ffiniau etholaethau Senedd Cymru yn y dyfodol a nifer aelodau Senedd Cymru, gan anfon barn y pwyllgor i Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Cymru. Am fod nifer yr aelodau yn San Steffan yn debyg o gael ei lleihau o'r 40 presennol, i Ynys Môn a 31 o etholaethau eraill, gydag etholaeth Arfon yn cael ei dileu a Bangor-Ogwen yn cael ei roi'n ôl i etholaeth Aberconwy, y mae rhai'n meddwl y byddai'n well cael dau aelod o Senedd Cymru (wedi eu dynodi'n ddaearyddol) i bob aelod o Senedd San Steffan ac ychydig o aelodau rhanbarthol i fodloni'r pleidiau lleiafrifol; ond eraill yn meddwl y byddai rhywbeth mwy radical yn well. Beth bynnag fydd y gyfundrefn newydd, barn Pwyllgor Arfon oedd y dylid defnyddio un bleidlais drosglwyddiadwy – cynrychiolaeth

gyfrannol, fel sy'n cael ei defnyddio mewn etholiadau mewnol y Blaid Lafur. Ganol y mis, aeth Godfrey Northam (cyngorydd cymunedol dros Ward Rachub) i Ucheldre Caergybi efo Carolyn Thomas (Aelod Senedd Cymru dros Ogledd Cymru) i weld y cynlluniau ar gyfer ffatri gynhyrchu a dosbarthu hydrogen ger cyn-safle Alwminiwm Môn, yn bennaf i bweru lorïau a bysiau i ddechrau ac yna i bweru ceir a chynhesu tai. Y mae'r fenter yn dechrau meddwl am ddefnydd i ddefnyddio'r ocsigen a ddaw o'r broses e.e. mewn ysbytai. Wedyn, aethant i wrando ar gyngerdd Nadoligaidd y gwasanaethau brys yng Nghadeirlan Bangor, wedi cael cinio yn Stryd Fawr Bethesda. Y cyfarfod nesaf fydd cyfarfod pob aelod o Etholaeth Arfon yn rhithiol ar yr ail nos Fercher ym mis Ionawr (y 12fed), yn bennaf i drafod materion Cynhadledd Cymru'r Blaid Lafur – sydd wedi cael ei chynllunio ar gyfer Mawrth yr 11eg hyd y 13eg.

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar

Swyddfeydd eraill:

Llangefni
(01248) 723106

Porthaethwy
(01248) 719517

Benllech
(01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

Braichmelyn

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad â Carys Dafydd a'r teulu, Llys Llewelyn, yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith a nain, Sylwen Lloyd Davies, Y Parc, Meirionnydd.

Y Gerlan

Caren Brown, Cilwern,
14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com

Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda,
LL57 3TY. (01248 601526)

Gerlan

Gobeithio bod pawb wedi cael Nadolig llawen, a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn 2022. Gyrrwn ein cofion at bawb sydd ddim wedi bod yn teimlo'n rhy dda dros yr ŵyl ac i ambell un sydd wedi bod yn yr ysbyty dros y Nadolig...

Anrhegion wedi cuddio

Cyn y Nadolig, bu i Michelle a Ricky Florence guddio ychydig o'r crefftau mae Ricky yn eu gwneud o gwmpas eu hoff daith gerdded



Dyma un o'r crefftau sydd wedi cael cartref newydd – diolch i Michelle a Ricky, Stryd Hir, Gerlan.

ym Methesda. Roedd 5 o'r crefftau wedi eu cuddio ac mae'n dda clywed bod y 5 wedi cael cartref newydd efo'r teuluoedd ddaeth o hyd iddynt. Diolch, Michelle a Ricky, am wneud rhywbeth mor hael a hyfryd. Mae'r teuluoedd wedi mwynhau'n fawr ac yn hynod ddiolchgar am eu hanrhegion cudd. Efallai eich bod wedi cychwyn traddodiad newydd yn y pentref.

Dathlu Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Non Thomas, Stryd Uchaf ar basio arholiad lefel 4 arwyddo BSL. Mae Non wedi bod yn cefnogi disgyblion byddar ers rhai blynnyddoedd bellach ac mae iddi cyrraedd y lefel yma mewn iaith arwyddo yn dipyn o gamp. Da iawn chdi, Non.

Dyweddio

Llongyfarchiadau mawr i Siwan Puw a James Gurd ar eu dyweddïad. Mae Siwan yn hogan o'r Gerlan sydd bellach wedi ymgartrefu yn Llundain. Mae'r teulu i gyd wedi gwirioni efo'r newyddion da ac yn dymuno'r gorau i chi.


Priodas

Llongyfarchiadau mawr i David Sharpley a Jane Young, Pen Clwt ar eu priodas ar yr 11eg o Ragfyr. Gobeithio i chi fwynhau eich diwrnod arbennig, a dymuniadau gorau i chi'ch dau ar yr achlysur hapus.

Clwb y Gerlan

Daeth cyfnod Clwb y Gerlan i ben ar ddiwedd 2021. Cafwyd gwibdaith i Landudno gan alw yn gyntaf ym Metws y Coed am goffi, cyn cael cinio ardderchog yng Ngwesty St George yn Llandudno. Mrs. Brenda Williams, trysorydd y Clwb, oedd wedi gwneud y trefniadau.

Er Cof am Hefin



Di-wên yw ei weithdy heno, – a mud
Yw Cwm Idwal hebddo,
Ond deil ei hwyl annwyl o
A galwad ei fugeilio.

Ieuan Wyn

Rhannwyd yr arian oedd ar ôl yng nghoffrau'r Clwb rhwng Plas Ogwen (£500.00) a'r gweddill i Gaban y Gerlan, gyda diolch iddynt am gael cynnal y clwb yno am flynyddoedd. Diolch yn fawr iawn i Mrs Gwenda Bowen a Mrs Brenda Williams am eu gwaith fel ysgrifennydd a thrysorydd y clwb am flynyddoedd.

PLAID CYMRU CANGEN DYFFRYN OGWEN

Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Â ninnau yng nghanol gaeaf gwlyb, anodd iawn ydy meddwl am fis Mai, ond dyna'n union yr ydym wedi dechrau ei wneud. Ddiwedd fis Tachwedd cynhaliwyd cyfarfod er mwyn dewis ymgeiswyr ar gyfer seddau yn Nyffryn Ogwen ar Gyngor Gwynedd. Pedair ward sydd yna yn bresennol, ond erbyn mis Mai bydd ward ychwanegol.

Arllechwedd

Sedd sy'n cael ei chynrychioli ar hyn o bryd gan Dafydd Meurig, ac ef hefyd fydd yr ymgeisydd yn etholiad 2022. Mae o wedi cynrychioli'r ardal ers nifer o flynyddoedd bellach. Mae'n

byw yn Llanllechid ac wedi bod yn brysur iawn, ac wedi dod i adnabod yr etholaeth a'i phobl yn arbennig o dda.

Rachub

Paul Rowlinson yw'r cynghorydd presennol yn Ward Rachub/ Gerlan a bydd yn ymgeisydd dros Blaid Cymru yn ward newydd Rachub ym mis Mai. Mae'n byw ar Lôn Newydd ac wedi gweithio'n galed er mwyn yr etholwyr yn ystod ei dymor fel cynghorydd.

Canol Bethesda

Rhan o'r hen Ward Ogwen ydi hon, ble mae Rheinalt Puw wedi gweithio'n galed gyda'r gymuned

yn ystod ei dymor cyntaf fel cynghorydd er mwyn ceisio gwneud gwahaniaeth. Ef fydd yn cynrychioli Plaid Cymru yn etholiad mis Mai.

Gerlan

Dyma'r ward Newydd, felly mae gennym ymgeisydd brwdfrydig iawn sef Einir Williams. Mae Einir wedi ei geni a'i magu ym Mraichmelyn ac yn dal i fyw o fewn tafliaid carreg. Mae hi wedi bod yn aelod ar Gyngor Cymuned Bethesda ers pum mlynedd ac wedi treulio amser fel cadeirydd.

Tregarth a Mynydd Llandygái

Y cynghorydd presennol ar ran

Plaid Cymru ydi Dafydd Owen. Nid yw Dafydd yn ymgeisio y tro hwn, ond mae ein diolch yn fawr iddo, ac rydym yn amau bod arnom ambell i bâr o esgidiau iddo. Ein hymgeisydd sy'n sefyll dros Blaid Cymru ydi Beca Roberts. Mae Beca yn ifanc a brwdfrydig iawn. Cafodd ei geni a'i magu yn Nhregarth gan fynychu Ysgolion Tregarth a Dyffryn Ogwen. Mae hi wedi gweithio i Bartneriaeth Ogwen ac mae hi bellach yn gweithio gyda Phrosiect y Carneddau ac felly yn adnabod ei hardal yn dda iawn. Dymunwn yn dda i'r pum ymgeisydd yn yr etholiad ym mis Mai.



Ffynnon Ffidlar

gan Myrddin Williams

Mae rhywbeth yn arbennig yn y gair “cynefin” on’d oes – mae’n rhoi rhyw deimlad o agosatrwydd a chynhesrwydd i rywun. Mae cynefin ardal eich genedigaeth hefo chi am byth, dim ots faint y byddwch wedi crwydro mewn bywyd, ac os ydych wedi gadael, mae’r atgofion yn bleserus, a’r hiraeth yn dal yno gydol eich oes - dydych chi byth yn colli’r berthynas unigryw yna.

A lle sydd well i’w gael fel cynefin na chysgod y Carneddau? Cefais fy ngeni a’r magu yn y Gerlan, ac mae’r atgofion am y golygfeydd a’r hen enwau o gwmpas yr ardal yn dal hefo fi er fy mod wedi symud oddi yno ers blynyddoedd lawer. Mi fu genni ddiddordeb mewn ystyron hen eiriau ac enwau erioed - ‘rydwi’n dal i gofio’r swyn ynghlwm ag enwau fel Ceunant Uffern, Ciltwllan a Nant y Benglog, i enwi ond ychydig, a hefyd enw’r tyddyn lle bu fy hen daid a nain yn byw, sef Wern Saeson Bach, un o’r anheddau uchaf, os nad yr uchaf un, yn yr ardal ar un adeg.

Ond, ‘roedd un enw diddorol yn sefyll allan ac yn glynu yn y cof, enw a fu’n destun fy chwilfrydedd gydol fy oes, sef yr enw Ffynnon Ffidlar. Er holi a stilio yn achlysurol am flynyddoedd, ni lwyddais i gael esboniad gan neb am darddiad yr enw yma ar y ffynnon hynafol sydd gerllaw Chwarel Doctor Huws yn y Waun Lydan. Efallai fod nifer o bobl o gwmpas yr ardal yn gwybod hanes yr enw yma, ond chefais i ddim cysylltiad ag unrhyw un oedd yn gallu cynnig unrhyw wybodaeth bendant.

‘Rydwi wedi bod yno ddegau o weithiau yn ystod fy oes – cerdded i fyny i Giltwllan, wedyn troi i’r dde a dilyn yr hen lwybr hyd nes dod i gyffiniau Chwarel Doctor Huws. Fel gyda nifer o safleoedd o ddiddordeb, mi oedd ‘na ryw straeon neu ofergoelion am Ffynnon Ffidlar. Un o’r rhain oedd y gred gan rai fod dŵr y ffynnon yn llesol i’w yfed ac yn



gwella afiechydon –mi fyddai Wil Berth, brawd fy nhad, yn gofyn i mi yn aml “pryd wyt ti’n mynd i ‘sgota i’r topia ‘cw nesa’? Cofia ddod â potelad o ddŵr Ffynnon Ffidlar i mi pan ei di.”

Mi oedd rhywun ar un adeg wedi nodi safle’r ffynnon hefo crawen o lechen a llun ffidil wedi ei ‘sgythru arni, ac roedd Robin Berth, brawd arall i ‘nhad, yn dweud iddo fo osod crawen yno, ac mi fyddai’n mynd i’w hymgeleddu bob hyn a hyn hefo’i frwsh a’i baent. Yn anffodus, malwyd y llechi flynyddoedd lawer yn ôl, a does dim o’u hol bellach.

Pam yr enw Ffynnon Ffidlar? ‘Chynigiodd neb awgrym i mi pan fyddwn yn holi, ac felly bu hi am ddegawdau, ond yn hollol ddamweiniol un noson yn gymharol ddiweddar, pan yn pori drwy fy stôr o hen lyfrau a dogfennau mi ddois ar draws yr ateb.

Heb fod ymhell o’r ffynnon yn y Waun Lydan, mae rhannau o’r dirwedd wedi eu henwi yn ôl pob sôn ar ôl un o’r enw Idris Delynor. Ger gwaelod y Foel Fechan mae ‘na bant a phoncen yn dwyn yr enwau Pwll Idris a Bryn Idris. Yn ymyl hefyd mae carnedd o’r enw Carnedd Idris. Y gred oedd fod y rhannau yma wedi eu henwi ar ôl yr Idris hwnnw.

Mi oeddwn yn sbecian ryw noson drwy Llenyddiaeth ac Enwogion Llanllechid a Llandegai, y traethawd buddugol yn

Eisteddfod Gadeiriol Bethesda yn 1867 o waith William Parry (Llechidon), pan ddois ar draws y cyfeiriad canlynol dan y pennawd “Cymeriadau Amrywiaethol”. Mi wnai ei ddyfynnu yn union fel y mae, heb newid dim ar y sillafu na’r arddull:

“Idris Delynor a anwyd , fel yr adroddir, yn ardal Ciltwllan, a hyny tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd nid yn unig yn delynor, ond yr oedd hefyd yn ffidler gwyach. Dywedir mai oddiwrtho ef y derbyniodd “Ffynnon Ffidler”, yn y Waun Lydan, ei henw; ac am y byddai yr hen Idris yn arferol o fyned i Waun Lydan i dynnu pabwyr, camgymerwyd ef unwaith gan Herw Heliwr am Geiliog y Mynydd; ond ni chanlynodd y camgymeriad farwolaeth i’r ffidler. Fodd bynnag, diangodd yr Herw Heliwr o’r wlad, na welwyd mwy mohono.”

Dyna beth yw stori ddifyr, yndê! Hanes anffodus Idris, y telynor a’r ffidlar, a oedd yn mynd i gyffiniau’r ffynnon i gasglu defnydd gwneud canhwylau brwyn oedd tarddiad yr enw. A tybed pwy oedd yr herw heliwr neu botsiar wnaeth ei anafu? Mi gymrodd dros drigain mlynedd i mi ddatrys rhywbeth fu’n ddirgelwch oes i mi yn bersonol, ac yn y diwedd mi ddaeth yr wybodaeth yn fwy drwy lwc na dim arall. A dyna gael ateb unwaith ac am byth i ran o hanes fy ardal fu’n destun fy chwilfrydedd ers fy mhлentynod.

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i’r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Owen’s Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
Angharad Williams, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
Gwenda Davies, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

Wel, dyna ni wedi cefnu ar hen flwyddyn digon diflas i bob un ohonom, a chyfle newydd bellach i edrych ymlaen i'r dyfodol am flwyddyn well i bawb. Er gwaethaf popeth, gwelsom lawer o garedigrwydd a dyfalbarhad yn lleol ac yn genedlaethol ac mae ein dyled i gymaint o bobol o'n cwmpas a benderfynodd fynd yr ail filltir er mwyn eraill. Diolch i bob un ohonoch fentrodd yn ddewr i roi cymorth i eraill ynghanol y pandemig Cofid.

Capel Shiloh

Ar gychwyn blwyddyn newydd mae drysau Shiloh ar agor bob Sul am 5 o'r gloch cyn belled y caniateir i ni wneud hynny. Dyma'r gwasanaethau am yr wythnosau nesa'.

Ionawr 23	Richard Gillion
Ionawr 30	Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Chwefror 6	Richard Gillion
Chwefror 13	Dewi Morris, Porthmadog
Chwefror 20	I'w drefnu
Chwefror 27	Ellie Jones

Anfonwn ein cofion at holl aelodau Shiloh sydd yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd i fynychu gwasanaethau. Rydan ni'n cofio atoch i gyd ac yn gobeithio y cewch chi flwyddyn newydd well yn 2022.

Hyfryd oedd medru dathlu'r Nadolig gyda dau wasanaeth arbennig. Oedfa Deulu'r Nadolig gafwyd ar Ragfyr 19 a braf oedd cael croesawu pawb ddaeth ynghyd. Cafwyd datganiad ar y Delyn gan Gwenno Roberts a chaneuon Nadoligaidd gan Mali Non a Nanw Branwen gyda Christine Morris Jones yn cyfeilio. Canodd Helen Wyn a darllenwyd darnau o'r ysgrhythur a darnau barddoniaeth a charolau gan Ffion ac Azilis Kervegant, Gwenno a Sioned Roberts, Rhian Evans-Hill, Ffion Rowlinson, Angharad Williams, Valerie Ellis Jones ac Islwyn Evans, a datganiad arbennig iawn gan Wynn Williams ar yr organ. Diolch i bob un ohonynt am gymryd rhan ac am wneud yr achlysur yn un cofiadwy iawn.

Ar Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24 bu Gwasanaeth Cymun y Nadolig dan ofal y Gweinidog, y Parchedig Richard Gillion. Dyma draddodiad sydd wedi aros yn Shiloh ers blyneddau lawer a diolchwn ei fod yn parhau.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Dathlodd aelodau'r gangen y Nadolig gyda phryd o fwyd ardderchog yn Y Teras, Prifysgol Bangor nos Lun, Rhagfyr 6. Croesawyd pawb

i'r wledd gan lywydd y gangen, Myfanwy Harper, a diolchodd i Iona Rhys am wneud y trefniadau, i Alison Carden am ei chymorth ac i staff y Teras am baratoi pryd o fwyd arbennig iawn. Dymunodd Nadolig Llawen i bawb a blwyddyn newydd lewyrchus i'r gangen yma yn Nhregarth yn 2022.

Yn fuan wedi'r cinio Nadolig daeth y newyddion trist am farwolaeth mam un o aelodau'r gangen sef Carys Dafydd, Braichmelyn. Roedd mam Carys, sef Sulwen Davies, yn un o aelodau cyntaf y gangen gyntaf o'r Mudiad ym mhentref y Parc ger y Bala yn 1967, ac roedd yn Llywydd Anrhydeddus Merched y Wawr. Bu ei hangladd yn y Parc ar Ragfyr 24. Anfonwn ein cydymdeimlad gyda Carys a'r teulu.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar Chwefror 7 gyda noson o Decstiliau dan arweiniad yr artist o Lasinfryn, Anna Pritchard. Croeso mawr i aelodau ac aelodau newydd i ymuno hefo'r gangen yng Nghapel Shiloh, nos Lun, Chwefror 7.

Cylch Meithrin Tregarth
Dymuna'r cylch ddiolch i bawb am eu

cefnogaeth i'r Ffair Nadolig ac am y stondinau gwych. Gwnaethpwyd elw teilwng iawn o £300.

Mae'r cylch hefyd yn apelio am aelodau newydd ac ychwanegol ar y pwyllgor. Os oes diddordeb cysyllwch â cylchmeithrintregarth@yahoo.co.uk

Pant yr Ardd

Dymuniadau gorau i Richard Hopkins sydd bellach yn rhedeg Pant yr Ardd. Dymunwn yn dda iddo yn y fenter.

Priodi

Llongyfarchiadau mawr i Gavin a Vanessa ar eu priodas yn Llundain ddechrau'r mis. Mae Gavin yn fab i Goronwy a Sulwen Roberts, Bro Syr Ifor.

Eglwys y Santes Fair

Roedd mor braf medru cynnal ein 'te bach' unwaith eto. Diolch yn fawr i bawb wnaeth gefnogi. Gobeithir y medrwn gael un eto'n fuan. Rydym yn dal â'r Gwasanaeth dydd Sul cyntaf y mis am 9.30yb, Cadwch lygad ar hysbysfwrdd yr eglwys.

Gair neu ddau - John Pritchard

Pabell a Thŷ

Rwy'n mawr obeithio cael paned yn fy hen gartref eleni. Cofiwch chi, dwi ddim yn siŵr a fyddaf yn nabod y lle chwaith. Nid bod yna flynyddoedd ers i mi ei weld. Yno roedd fy rhieni'n byw hyd at fisoedd olaf eu bywydau lai na saith mlynedd yn ôl. Ond ers sbel bellach mae nai i mi a'i wraig wrthi'n brysur yn adnewyddu'r tŷ yn gartref iddynt eu hunain. Mor braf yw ei weld yn aros yn y teulu, ac wedi'r holl waith chwalu ac ail-adeiladu bydd yn werth ei weld. Un peth oedd yn sicr o'i blaid cyn i ddim oll gael ei wneud iddo oedd ei leoliad, yng nghanol y pentref, yn wynebu mynydd Elidir, a dim byd o'i flaen ond cae pêl-droed Llanberis.

A dyna ddechrau meddwl beth arall, heblaw am ei leoliad, sy'n rhoi gwerth i dŷ. Hynodrwydd ambell dŷ yw ei fod yn waith pensaer penodol. Mae tai eraill yn arbennig oherwydd safon y gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd gan y crefftwyr medrus a'u cododd. Mae eraill yn arbennig oherwydd eu hoedran, rhai am eu bod yn newydd sbon danlli a rhai am eu bod ganrifoedd oed.

Yn yr ail Lythyr a ysgrifennodd at yr eglwys yng Nghorinth, mae Paul yn cymharu ei fywyd ei hun a bywydau ei gyd-Gristnogion ag adeilad. Mae delwedd y 'babell' yn cyfleu'r ffaith mai rhywbeth dros dro yw'r bywyd hwnnw. Ac wrth i'r blyneddau wibio heibio mae'r mwyafrif ohonom yn sylweddoli mor frau yw bywyd ar y gorau. Ond nid digalondid sy'n dilyn hyn i Paul ond hyder a llawenydd am ei fod yn gwybod 'os tynnir i lawr y babell ddaearol hon yr ydym yn byw ynddi, fod gennym adeilad oddi wrth Dduw, tŷ nad yw o waith llaw, sydd yn dragwyddol yn y nefoedd' (2 Cor. 5:1). Ac yn y frawddeg hon gwelir yn eglur iawn obaith yr Efengyl.

Y 'babell ddaearol' yw

ein bywyd presennol, ac yn benodol ein corff daearol; ac mae Paul yn deall yn iawn y daw diwedd iddynt. Ond mae'n gwybod hefyd am y cartref sy'n ei aros ef a'i gyd-gredinwyr. Ac yn yr un adnod hon, mae'n dweud cymaint am yr hyn sy'n gwneud y cartref hwnnw'n arbennig. Yn gyntaf, Duw yw'r pensaer sy'n gyfrifol amdano: 'adeilad oddi wrth Dduw' ydyw. Yn ail, mae ei ddyluniad a'i wneuthuriad yn arbennig: 'tŷ nad yw o waith llaw' ydyw. Yn drydydd, nid rhywbeth dros dro ydyw ond rhywbeth a fydd yn para 'yn dragwyddol'. Ac yn bedwerydd, y mae iddo'r lleoliad pendant: 'yn y nefoedd'.

Y gobaith sicr a roddwyd i bob Cristion yw bod y cartref hwn o'u blaen. Ni all dim na neb dynnu'r gobaith oddi wrthym. A beth yn union yw'r 'tŷ' hwn? Y nefoedd? Ie, yn sicr y nefoedd; ond yn fwy penodol na hynny, 'y corff o'r nef sydd i fod yn gartref inni' (5:3). Pen draw'r gobaith Cristnogol yw bywyd tragwyddol yn nefoedd Duw yn ein cyrff atgyfodedig.

Ysgol Bodfeurig

Teams 4 U
Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu i gasglu bocsys esgidiau ar gyfer ymgyrch Teams 4U. Llwyddodd ffrindiau a theuluoedd yr ysgol i gasglu nifer fawr o focsys yn llawn anrhegion ar gyfer plant mewn gwledydd eraill. Dyma'r Cyngor Ysgol gyda rhai o'r bocsys!

Raffl Nadolig
Gan nad oedd posib cynnal ffair Nadolig eleni llwyddodd yr ysgol i godi arian wrth gynnal raffl Nadolig. Hoffem ddiolch o galon i pawb gyfrannodd wobrau ac i'r rhai brynodd docyn. Llwyddwyd i godi dros £150 tuag at yr ysgol!

Nadolig
Er gwaethaf y cyfnod heriol a gafodd bob ysgol yn arwain at y Nadolig, llwyddodd yr ysgol i roi llawer a gwneud y mwyaf o'r amser i roi profiadau arbennig i'r plant. Llwyddwyd i ffilmio sioe



Nadolig 'Y Goeden Fach Hardd' – cafodd pawb lawer o hwyl yn canu, dawnsio ac actio. Cafwyd cinio Nadolig blasus dros ben gan Anti Anwen ac Anti Dana a chafodd pawb barti Nadolig llawn hwyl a

sbri! Ond, heb os, uchafbwynt y Nadolig oedd cynnal cyngerdd ar iard yr ysgol gan allu croesawu rhieni yn ôl ar dir yr ysgol am y tro cyntaf ers blwyddyn a hanner! Roedd wynebâu'r plant a'r rhieni

yn werth eu gweld wrth i'r canu lenwi'r iard – profiad arbennig i'r plant.
Dymuna pawb yn Ysgol Bodfeurig Flwyddyn Newydd Dda ac iach i holl ddarlennwyr y *Llais*!



PARATOWCH AR GYFER Y GAEAF

Am gyngor ynghylch sut i baratoi ar gyfer y gaeaf a sut i gysylltu efo Cyngor Gwynedd mewn argyfwng, ewch i:

www.gwynedd.llyw.cymru/gaeaf

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Côr y Penrhyn

gyda Derfel Roberts



Ffair Fwyd a Chrefftau Lleol
Distyllfa Aber

Ychydig cyn y Nadolig derbyniodd y côr wahoddiad i ganu yn Nistyllfa Aber am yr eildro mewn mis. Y tro hwn, carolau Nadoligaidd oedd cynnwys yr holl raglen, ac er nad oedd y niferoedd a fynychodd y ffair mor uchel â'r tro cyntaf derbyniodd perfformiadau'r côr gymeradwyaeth gynnes.

50 mlynedd o ganu

Yn wyneb peryglon yr amrywiolyn 'omicron' sydd wedi ymledu mor gyflym dros yr holl fyd, barnwyd mai doethach fyddai gohirio noson gymdeithasol y côr yn y Clwb Criced a Bowllo. Bwriadwyd cyflwyno ysgythriadau o gerddi gan feirdd lleol i'r aelodau hynny a fu'n canu gyda'r côr am 50 mlynedd. Gobeithir cael cyfle i wneud hynny rywdro yn y flwyddyn newydd.


Dyma'r chwe aelod sy wedi canu gyda'r côr ers 50 mlynedd



Gwilym Owen Bas 2



Dafydd Evans Bas 2



Walter Williams Tenor 2



Arwel Owen Bas 1



Elfed Bullock Bas 1



Gwyn Burgess Tenor 2

Colli aelod

Gyda thristwch y cyhoeddwn fod y côr wedi colli aelod poblogaidd a gwerthfawr pan fu farw Eilir Glyn Jones, brodor o Riwlas oedd yn faswr nodedig o soniarus. Bu Eilir yn athro ac yn brifathro poblogaidd ac yn aelod o Hogia'r Bonc yn ogystal â Chôr y Penrhyn. Cyhoeddwn isod grynodedb o'r deyrnged a dalwyd iddo ar ddiwrnod ei angladd gan Emyr Fôn Evans, ysgrifennydd Côr y Penrhyn.

I GOFIO AM EILIR GLYN JONES

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch am y ffrind hon o gyflwyno'r ychydig sylwadau hyn er cof am ein cyfaill, Eilir Jones. Yn ail, hoffwn dalu teyrnged i'r rhai hynny fu'n gwneud eu gorau i gynorthwyo Eilir yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf, er mor anodd oedd hynny ar brydiau. Yn drydydd, dwi'n dymuno estyn fy nghydymdeimlad yn bersonol ac ar ran Côr y Penrhyn i'r teulu yn eu profedigaeth, a honno'n dilyn colled lem arall yn ddiweddar iawn. Hogyn o ardal Rhiwlas oedd Eilir Glyn Jones – yn fab cyntaf-anedig i Robert a Valmai Jones ac yn frawd hŷn i Rheon. Mynychodd Eilir Ysgol Gynradd Rhiwlas, ger ei gartref, cyn symud i Ysgol Dyffryn Ogwen ym Methesda. Oddi yno, aeth i'r Coleg Normal i gymhwyso fel athro cyn cael ei swydd gyntaf yn Ysgol Cae Top ym Mangor. Wedi hynny, bu'n Ddirprwy

Brifathro yn Ysgol Cymerau ym Mhwlheli, gan deithio bob dydd o'i gartref ym Mangor. Roedd o a minnau'n hogia Hiracl am gyfnod ond ddim yn "Bangor Lads". Uchafbwynt ei yrfa fel athro oedd cael ei benodi'n brifathro Ysgol Bodfeurig ger Mynydd Llandygái. Prawf, os oedd angen hynny, o'i allu fel addysgwr ac yn sicr yn bluen yn ei het ar y pryd. Bu hefyd yn rhan o dîm oedd yn gweithio gyda phlant mewn gofau yng Nghyngor Conwy nes iddo ymddeol yn gynnar yn 2019 ar ôl dros 35 mlynedd o addysgu a gofalu am blant. Wrth gofio am gymeriad Eilir, y geiriau a ddaw i'r meddwl yw rhai fel – hawddgar, caredig a diolchgar ac un oedd heb unrhyw falais yn ei galon. Priodol yma hefyd yw nodi iddo gael cryn bleser o fod yn llys-dad i Llew. 'Roedd ganddo hoffter mawr o gerddoriaeth yn gyffredinol ac fe ymunodd â Chôr y Penrhyn yn y flwyddyn 1984 pan oedd ond 21 mlwydd oed ac fe barhaodd yn ffyddlon iawn hyd nes i ofynion gwaith olygu gorfod rhoi heibio ei aelodaeth ar ôl tua 20 mlynedd. Tra'n aelod o'r côr gwnaeth gyfraniad gwerthfawr fel is-ysgrifennydd ac yna fel ysgrifennydd a bu'n ddarpar gadeirydd y côr ar wahanol adegau. Roedd hynny'n arwydd pendant



o'i allu arbennig ac o barch yr aelodau eraill tuag ato. Bu'n aelod o Hogia'r Ddwylan am gyfnod ac fe fu hefyd yn aelod o Hogia'r Bonc o'r cychwyn yn 1998. Mae ei gyd-aelodau yn tystio i'w syniadau cerddorol gwych a'i gyfraniad mawr i adran bas y grŵp am tua 5 mlynedd. Yn wir, roedd ganddo ddigon o ddawn fel canwr i ganu'r unawd mewn ambell gân. Bu Eilir yn gefnogwr brwd o dîm pêl-droed Dinas Bangor am flynyddoedd maith, gan ddechrau'n ifanc iawn yng nghwmni ei Yncl Gruff, Frondeg. Bu hefyd yn chwaraewr dawnus i glwb bowllo Bethesda ac felly'n rhan annatod o'r gymuned leol pan oedd yn byw yn Nyffryn Ogwen. Fe wnaeth Eilir ymdrech deg, gan wneud ei orau mewn nifer o feysydd gwahanol a braint yw cael cydnabod yr ymdrech honno yma heddiw.

Cyhoeddwn hefyd englyn o waith Dilwyn Owen, Erw Las er cof am Eilir.

Eilir Glyn

Dyddiol ei sgwrsio diddan, - a'i hiwmor
Fel gemau yn tincian;
Llawn angerdd ei gerdd a'i gân,
A'i nef oedd Cymru'n gyfan.

Dilwyn Owen

Rachub a Llanllechid

Emlyn Williams, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459) henbarc13@gmail.com

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

Adferiad

Dymunwn adferiad buan i Iona Robinson, Maes Bleddyn ar ôl cyfnod o salwch.

Cae Rhosydd

Y mae Archaeolegwyr Gwynedd yn dal i weithio yng Nghae Rhosydd. Y gobaith yw y bydd hyn yn parhau am gyfnod er mwyn casglu mwy o hanes difyr yr ardal.

Menter

Dymunwn yn dda i'r entrepreneur o Faes Bleddyn sydd wedi bod yn defnyddio stondin werthu ym maes parcio Cae Star, Bethesda, ac i'r ddwy o Rachub sydd wedi agor Y Pantri Bach yn Stryd Fawr Bethesda.

Cyfarchion

Dymuniadau da hefyd i Dewi Morgan, Lôn newydd yn ei swydd fel Trysorydd Cyngor Gwynedd ac i Angharad Llwyd efo'i sioe yn Neuadd Ogwen.

Da oedd clywed Laura Caradog o Dalybont, Pontyberem (a fynychodd Ysgol Sul Capel Carmel) yn adrodd ei hanes ar Radio Cymru yn ddiweddar.

Croeso i Rachub

Cyrhaeddodd Eira i'r pentref am y tro cyntaf, a hynny o Ganada. Roedd nain Ron a Wendy

yn nain a thaid balch iawn wrth ei chroesawu i'w cartref dros y Nadolig.

Lloches bws

Da hefyd oedd gweld y lloches bws newydd yn Sgwâr Rachub wedi brwydro dros bum mlynedd gan Gynghorwyr Llafur Cyngor Bethesda dros Ward Rachub, yn enwedig y Cyngorydd Godfrey Northam.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Stephen Griffiths a'r teulu yn Stryd Britannia wedi marwolaeth ei wraig, Amanda, ac â Brenda Baston o Ffordd Llanllechid wedi marwolaeth ei chwaer, Joan.

Y Siop a'r Swyddfa Bost

Y mae'n chwithig heb Esther yn gwasanaethu yn Siop a Swyddfa Bost Rachub, ond y mae'n dda gweld bod Janet wedi gwella'n llwyr

wedi cyfnod efo niwmonia tua blwyddyn yn ôl, a bod Rebecca wedi ymateb yn dda i'r her.

Llongyfarch

Llongyfarchiadau mawr i Siân Bryn o Bron Arfon a Christian Bolton Edenborough o Lanbed ar eu dyweddïad noswyl Nadolig. Pob hapusrwydd ar gyfer y dyfodol oddi wrth y teulu i gyd.

Carmel, Llanllechid

Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur

Ar y 12fed o fis Rhagfyr yn y capel, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig y plant a'r bobl ifanc. Mi gawsom ni wasanaeth bendithiol o ganu a darlenniadau, a phawb yn gwneud ei orau. Rhoddwyd casgliad y bore at waith yr ysgol sul. Ac er ei brysurdeb mawr, mi alwodd Siôn Corn i'n gweld ni ar ddiwedd yr oedfa gydag anrhegion i'r plant



Gwydion, Charmaine, a Mabon



Cysgodfan Fysiau

Mae Cyngor Cymuned Bethesda wedi codi cysgodfan fysiau newydd yn Sgwâr Rachub. Croesawodd y Cyngorydd Sir, Paul Rowlinson, y newyddion gan nodi: “Rwy’n ddiolchgar iawn i Gyngor Bethesda am godi'r gysgodfan fysiau newydd, y mae wir ei hangen, yn Sgwâr Rachub. Dyma lle mae pawb yn y pentref yn ymgasglu i ddisgwyl am fws ac mae pawb wedi gorfod aros yn y glaw tan rŵan. Gwnaed cais flynyddoedd yn ôl am gysgodfan, a neilltuodd Cyngor Bethesda arian ar ei chyfer. Cafwyd problemau a wnaeth rwystro'r Cyngor rhag gweithredu ac rwy'n falch iawn eu bod wedi llwyddo o'r diwedd i gael y maen i'r wal. Bydd teithwyr bysiau yn Rachub yn gwerthfawrogi'r cyfleuster newydd yn fawr.”

a’r ieuenctid. Nid oedd hi’n bosibl cael llun o bawb gyda’i gilydd hefo Siôn Corn eleni, ond mi gawsom ni luniau fesul teulu.

Roedd y gwasanaeth ar fore’r Nadolig am ddeg o’r gloch yn ôl yr arfer. Cymerodd aelodau Carmel a thri o bobl ifanc ran yn y gwasanaeth o ddarlleniadau o’r Hen Destament a’r Newydd ac o farddoniaeth. Darllenodd Mabon a Charmaine gerdd am y Nadolig ac mi ganodd Charmaine ‘I Orwedd Mewn Preseb’ ar ei phen ei hun. Mi glywsom ni ddatganiad ar y piano gan Gwydion o waith gan Alexander Scriabin. Roedd blas lleol iawn ar y tonau cynulleidfaol hefyd, sef ‘Rachub’ gan Eos Llechid a ‘Wele’n Gwawrio’ gan Alaw Llechid. Roedd hwn yn wasanaeth i godi calonnau pobl mewn cyfnod sy’n parhau i fod yn ansicr. Mi aeth y casgliad o £141 at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.



MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda

♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

 600723

Ffacs: 605068

Ysgol Llanllechid



Nadolig

Daeth Nadolig arall heibio, ac er ei fod ychydig yn wahanol y tro hwn, llwyddwyd i greu’r asbri arferol. Daeth Siôn Corn i ymweld â’r disgyblion ar yr iard. Yn sicr, roedd hyn yn un o’r pinaclau! Diolch i Mr Eifion Hughes a Mrs Sian Thomas am bopeth!

Blwyddyn Newydd Dda

Blwyddyn Newydd Dda i un ac oll. Wrth edrych yn ôl ar dymor yr hydref, gellir dweud, heb os, mai hwn oedd y tymor mwyaf heriol eto wrth i ni geisio ymdopi hefo’r sefyllfaoedd oedd yn codi yn sgil Covid. Aeth yr hen aflwydd â ni i lawr llwybrau na fyddem yn dychmygu gorfod eu troedio mewn amseroedd cyffredin. Trawodd yr afiechyd nifer helaeth o’n teuluoedd, a rhai o’n staff, a bu’n gryn her cadw ein hysgol ar agor ar rai adegau. Ond yn wyneb yr holl drybini, hyfryd yw nodi cydweithrediad llwyr y gweithlu; pob un ohonynt, ond hoffwn nodi ac enwi Ms Leanne Parry, sy’n rhedeg ein swyddfa; bu ei chyfraniad diflino yn ystod y cyfnodau anodd yn gadarn dros ben.

Ar ddechrau 2022, mawr obeithiwn y bydd rhywfaint o leddfu ar y sefyllfa, ac y cawn ddychwelyd i ddyddiau llai cymhleth. Yn anffodus, fel mae pethau yn sefyll ar hyn o bryd, y gwrthwyneb sy’n wir, wrth i amrywiolyn Omicron ddechrau dangos ei ddannedd. Er gwaethaf hyn, fe wynebwn y tymor newydd yma yn galonnog, gan barhau i gynnal ac edrych ar ôl y plantos.

Cyflwyniadau Nadolig

Cafwyd sioeau/cyflwyniadau Nadolig amrywiol gwerth eu gweld gan yr ysgol i gyd, ac fe’u hanfonwyd i gartrefi’r disgyblion. Roedd hi’n braf gallu gwisgo i fyny a chanu ac actio ar ddiwedd y tymor. Pawb wedi mwynhau! Llongyfarchiadau i bawb!

Siwmperi Nadolig

Diwrnod Siwmperi Nadolig. Diolch am eich cyfraniadau o £86.50 at elusen Achub y Plant.

Clwb Mentergarwch

Bu’r disgyblion hynaf wrthi’n brysur yn dylunio cardiau Nadolig fel rhan o’u gweithgareddau Mentergarwch, ac roeddent yn werth eu gweld. Diolch i Mr Dafydd Roberts, Trefor am ei gymorth a’i hiwmor.

Warws Werdd

Diolch i Warws Werdd, Antur Waunfawr am ddod draw i gasglu llwyth o ddillad ar gyfer eu hail-gylchu. Codwyd £132 i’n hysgol.

Cymdeithas Rhieni/Athrawon

Diolch i’r Gymdeithas Rhieni/ Athrawon am y rhodd anhygoel o £4,000! Dyma bwyllgor o rieni sy’n gweithio’n galed iawn. Byddwn yn gwario’r arian ar bob math o adnoddau ar gyfer y Cwricwlwm newydd, gan gynnwys Addysg Gorfforol, Technoleg Gwybodaeth, Llyfrau Darllen/Mathemateg, System P.A. Diolch i bawb!

Plas Ogwen

Hyfrydwch pur oedd ymweld â Phlas Ogwen i ganu i’r trigolion. Derbyniwyd croeso cynnes gan y rheolwraig Mrs Sharon Williams a Mr Ceirion Jones. Bu’r plant, sef dosbarth Mrs Delyth Humphreys a dosbarth Ms Elen Evans, yn canu o’i hochor hi allan yn yr awyr iach tra oedd y preswylwyr yn mwynhau drwy’r ffenest.



Cinio Nadolig

Diolch arbennig i Mr Gavin, Mr Mario a Mr Robert a’r tîm am ginio Nadolig heb ei ail! Pawb wedi mwynhau! Diolch o galon!

Ysgol Dyffryn Ogwen



Sesiynau Blasu Ysgolion Cynradd

Bu sesiynau blasu ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd y dalgylch, ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr. Diolch yn fawr i’r disgyblion a’r staff am ddod draw i Ysgol Dyffryn Ogwen. Da iawn chi, ddisgyblion blwyddyn 6, am ddangos ymroddiad, cwrteisi ac ymdrech wych!

Adran Fathemateg

Mae blynyddoedd 7, 8 a 9 yn rhoi sglein ar eu sgiliau lluosï a rhannu yn defnyddio ‘Times Tables Rockstars’ drwy ateb cwestiynau yn gyflym ac ennill ceiniogau am bob ateb cywir. Y pencampwyr fesul blwyddyn am y nifer uchaf o geiniogau y tro hwn oedd Steffan Hughes blwyddyn 7, Freda-Jean Pollitt blwyddyn 8 a Caden Burke blwyddyn 9. Yn ail oedd Mason Hadfield blwyddyn

7, Amelie Drew blwyddyn 8 a Twm Rowlands blwyddyn 9. Llongyfarchiadau iddynt i gyd!

Cynllun Rhwydwaith Seren

Mae’r Cynllun Rhwydwaith Seren i flwyddyn 8 wedi cychwyn. Cafwyd prynhawn difyr yn caffael sgiliau astudio cyflym ac yn arbrofi gyda dulliau arbennig o glyfar o ddysgu a chofio nifer anhygoel o ffeithiau mewn dim o amser.

Adran Gelf

Yn ystod y flwyddyn mae disgyblion blwyddyn 11 a 13 wedi cael y cyfle i weithio gyda briff ‘Afalau a Pherllannau’ a’u pwysigrwydd i gymaint o greaduriaid amrywiol. Gwnaethpwyd llawer o waith arlunio manwl a’i anfon at ddylunydd graffigol trwy

law Judith Kaufmann. Mae panel wedi ei gynhyrchu i’w arddangos ar y wal ar ffiniau’r ysgol i ddangos rhan yr afal yng nghylch bywyd hyd at 2000 o rywogaethau. Mae hyn yn dangos bod gweld perllan yn llawn blodau neu llawn ffrwyth yn dda i’r enaid.



Cwrs Preswyl yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn

Fel rhan o gwrs lefel A Cymraeg, cefais i a phum disgybl o flwyddyn 12 y cyfle gwych i fynychu cwrs Cymraeg preswyl yng ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn. Dros y tridiau, cawsom ddarlithoedd hynod o ddiddorol

ac addysgiadol gan nifer o ddarlithwyr brwdfrydig gan gynnwys yr Athro Peredur Lynch a’r Athro Angharad Price. Yr uchafbwynt i mi oedd y ddarlith am y nofel *Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Prichard. Llwyddodd Menna Baines i ddod â’r cymeriadau yn fyw i mi





Dewi Jones, Carlie Jones ac Elliw Davies

Plant Mewn Angen

Llongyfarchiadau i Elliw Davies, Tomos Davies, Carlie Jones a Dewi Jones am ddod i'r brig yn y gystadleuaeth 'Bake Off' ar gyfer Plant Mewn Angen. Roedd y safon yn uchel iawn. Da iawn chi.

ac eglurodd lawer am gefndir diddorol yr awdur amryddawn ac am tarddiad y nofel. Yn bendant, bydd hyn o fudd mawr pan ddaw'r arholiad yn y gwanwyn. Roedd adloniant wedi ei drefnu, a chefais y cyfle i ddringo rhaffau heriol Glan-llyn efo Miss Awen Mair, tra oedd gweddill y criw wedi mynd ar ymweliad i'r Ysgwrn gan eu bod yn astudio hanes Hedd Wyn. Ar y noson gyntaf, daeth y talentog Jacob Elwy draw gyda'i fand i'n diddanu. Rhoddodd hyn gyfle gwych i ni gyfarfod a sgwrsio efo disgyblion o ysgolion eraill oedd wedi dod o bob cwr o Gymru. Y noson ganlynol, cawsom hwyl yn y Talwrn gan gael y cyfle i farddoni gydag Andrea Parry

o'r Bala ac roedd gyfle i bawb oedd yn dymuno i gymryd rhan i gystadlu am y Gadair. Hoffwn diolch i fudiad yr Urdd am y croeso ac i athrawon yr adran Gymraeg, Mrs Catrin Thomas a Miss Awen Mair am drefnu ac ymuno yn yr hwyl.

Awel Griffiths

Pontio'r Cenedlaethau

Braf oedd cael treulio amser yn gweithio ar y fainc gyfeillgarwch yn yr ysgol gyda'r artist Elen Williams. Mae brwdfrydedd y plant yn amhrisiadwy ac rydym yn edrych ymlaen i weld y fainc wedi'i gorffen a'i chyflwyno i gartref Plas Ogwen. Diolch i'r disgyblion am eu gwaith caled hyd yma. Mae'r fainc yn edrych mor cŵl!

Chwarel y Penrhyn

Diolch i gyfeillion o gwmni Welsh Slate yn Chwarel y Penrhyn am gyflwyniad diddorol ac addysgiadol i ddisgyblion blwyddyn 11 am yr holl gyfleon sydd ar gael gyda grŵp Breedon. Roedd llawer o'r disgyblion wedi eu hysbrydoli a'i hysgogi i feddwl am eu llwybr gyrfa.



Iaith Pesda

Diolch i chi am sylwadau ar niwl Conwy a'r ffaith bod llawer hefyd yn defnyddio'r term niwl gwres, pan fo niwl efallai yn y bore sy'n clirio'n ddiweddarach yn y diwrnod a chawn dywydd braf.

Rhagor am y Tywydd

Gan ein bod wedi dechrau gyda sylwadau am y tywydd, beth am barhau gyda'r pwnc. Yn aml iawn mae dywediadau am y tywydd yn ymwneud â lleoliadau yn yr ardal. Tybed faint ohonoch sy'n edrych tuag at y chwarel cyn rhoi dillad i'w sychu ar y lein? Os ydy hi wedi "cau tua'r chwarael" yna gwell mynd â'r dillad yn ôl i'r tŷ gan mai "glaw sydd ynddi" Glaw sydd ynddi hefyd pan welwn y crëyr glas yn hedfan i fyny'r nant gan ei fod yn mynd i "agor y fflodiart." Ydy hi yn addo tywydd teg pan welwn y chwarel neu'r mynyddoedd yn agos?

Yn ôl Mrs Mona Williams, Tregarth byddai ei mam, y ddiweddar Mrs Mary Twigge, yn arfer dweud, "Cofia di pan fydd menyng yn toddi bydd hen bobol a babis yn rhynnu."

A beth am law? Mae sawl ffordd o ddisgrifio glaw ... glaw mân, glaw mynydd, glaw t'rannau, pistillio bwrw, a'r llall, tywallt y glaw (er ein bod yn tollti têt), bwrw haul, a llawer mwy. Hefyd, fyddwch chi yn dweud ei bod yn dreigio pan welwch fel't yn fflachio heb glywed sŵn taran.

Ambell Air Penodol

Nodwedd arall yr hoffwn ei thrafod yn y golofn ydy geiriau a ddywedwn ni yma ym Methesda. Efallai eu bod yn cael eu defnyddio mewn ambell i le arall, ond rydwi'n siŵr bod rhai unigryw. Pan oeddwn i yn blentyn, yn yr hydref byddem ni yn chwarae gêm daro gyda "cobls" sef cnau castanwydden y meirch. Nid wyf wedi clywed y gair ers hynny ond yn hytrach concyrs. Oedd rhywun arall yn defnyddio "cobls?" A beth am ein harfer o roi llythyren ychwanegol mewn gair ac enw. Cofiaf fy nhad yn galw ei gyfaill Stan yn Standley, felly mae Penrhyn yn mynd yn Pendryn, Henry yn mynd yn Hendri, a beth am 'neindio' a 'neindar'!

Os oes gan unrhyw un sylw ar yr uchod, neu eiriau ac ymadroddion a ddefnyddiwn ni yma ym Methesda, yna rhowch wybod. Oes rhai sydd wedi mynd yn angof, neu wedi colli eu hystyr bellach? Beth am ymuno yn y drafodaeth drwy gysylltu efo Mary Jones 42, Erw Las, Bethesda LL57 3NN, neu ar ffôn 074430447642, neu drwy e-bost maryeds@hotmail.co.uk

Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?

Cysylltwch â Neville Hughes (Ffôn 600853)

nev_hughes@btinternet.com

Cefn Bedw

Gan mai rhan o Stâd Coetmor oedd Cefn Bedw, nid oes cyfeiriadau cynnar ar gael ati. Gwelir y fferm ar fap o 1822, a wnaed efo llaw, o ffermydd Llanllechid, sydd yn rhan o bapurau'r Penrhyn yn Archifdy Prifysgol Bangor. Mae'n ymddangos ar Arolwg Degwm 1838-1840 fel rhan o diroedd yr Iarll Egmont ym mhlwyf Llanllechid, tiroedd oedd yn seiliedig ar yr hen stâd; roedd y tiroedd hyn yn cynnwys daliadau cyffiniol ar y tir rhwng afon Ogwen a Lôn Coed i fyny at Goetmor, ac at y mynydd. Yn ogystal â fferm Coetmor ei hun, roedd yn cynnwys Pant Hwfa, Pandy, Tai'n Coed, Coed Uchaf, Coed Isaf, Parc y Moch, Clwt y Felin, Llwyn Bleddyn, Tyn y Ffridd, a Chefn Bedw.

Yn ôl yr Arolwg, roedd Cefn Bedw yn 34 acer, wedi ei rhannu'n ddwy ran gan y ffordd oedd yn mynd o Gaellwyngrydd at Goed Isaf (gyda gweddill y ffordd bresennol i Fryn Bela yn ddim ond llwybr). Roedd y rhan fwyaf o'r tir yn yr ardal hirsghar honno sydd rhwng Talysarn, sgwâr Rachub presennol, a'r ddwy ffordd sy'n cyfarfod yng nghroeslon Lôn Coed. Y rhan hwnnw yw'r Cae Rhosydd presennol, a thir Bryn Arfon, ynghyd â'r tai a godwyd ar y tir hwnnw, gan gynnwys ochr y post o Sgwâr Rachub. Roedd tir perthyn i Gefn Bedw yr ochr arall i'r ffordd hefyd, yn fras ble mae Maes Bleddyn heddiw, ac roedd y tir hwn yn ffinio ar Llwyn Bleddyn a Choetmor. Yn 1838 dyn o'r enw Richard Owen oedd yn ffermio Cefn Bedw.

Yn ddigon rhyfedd, nid yw map yr Arolwg Degwm yn dangos tŷ ar y tir, er ei fod yn arfer dangos tŷ ac adeiladau ar ffurf bocsys amrwd ar y daliadau gwahanol, ac i nodi tai moel, a strydoedd. Mae map bras Penrhyn yn 1822 yn dangos adeiladau yn union ble mae'r cloddio presennol; mae'n sicr mai'r tŷ oedd un o'r rheiny. Yn ôl Cyfrifiad 1841, yr oedd gwr 55 oed o'r enw Richard Parry yn byw yn y fferm, gyda'i wraig Elizabeth, eu tri phlentyn, un gwas, a dau lojar, oedd yn chwarelwyr; 15 oed oedd un or rheiny. Mae ef, ei wraig, ac un mab yn dal yno yn 1851, er ei fod wedi heneiddio 12 mlynedd yn y 10 mlynedd ers 1841!. Roedd y daliad, erbyn hyn, wedi crebachu i 27 acer.

Yn 1855 fe ddigwyddodd rhywbeth arbennig; roedd yr Iarll Egmont wedi morgeisio ei diroedd yn Llanllechid (ni wyddom am weddill ei eiddo) er mwyn cael arian parod, ac yn y flwyddyn hon fe brynodd y Penrhyn y tiroedd hyn, gan gynnwys Cefn Bedw, allan o'r morgais, a daeth y rhan fwyaf o blwyf Llanllechid yn eiddo iddynt. Dyma gyfnod yr ad-drefnu mawr ar ddaliadau'r stâd, yn enwedig i lawr yn yr hendref, ond ni ddigwyddodd llawer o hyn yn uwch i fyny'r dyffryn, ond fe ddigwyddodd i Gefn Bedw, am ryw reswm. Yn 1861 roedd Cefn Bedw yn nhenantiaeth Elizabeth Owen, oedd yn byw yno gyda'i mab, Owen, ei ŵyr, ac un gwas, ond, rywdro yn y blynyddoedd nesaf, mae Cefn Bedw yn diflannu fel daliad, gan nad yw'n ymddangos ar Gyfrifiad 1871, nac wedi hynny.

Erbyn 1871 mae Elizabeth Owen wedi symud i Goed Uchaf, ble mae'n byw efo'i mab, Owen, sy'n denant y fferm, a'i deulu ifanc. Ar ran uchaf hen ddaliad Cefn Bedw, yr oedd daliad bychan newydd Bron Arfon wedi ymddangos (sy'n cael ei nodi fel Bron yr Afon ar fap OS 1888), ac ym meddiant casglwr trethi. Ni allaf nodi'n union i ble'r



Rhan o fap plwyf Llanllechid 1822, trwy law John Llywelyn Williams

aeth gweddill y tir, er, mae'n debyg i Gae Rhosydd fynd ynghlwm wrth Dalysarn, a'r tir yr ochr arall i'r ffordd fynd i dir Coetmor. Noda'r archeolegwyr sy'n cloddio'r safle i'r tŷ a'r adeiladau gael eu chwalu'n fwrriadol; ymddengys fod hynny'n arfer gan Stâd y Penrhyn wrth ad-drefnu daliadau, gan fod nifer o ddaliadau, a'r tai perthynol iddynt, wedi diflannu rhwng 1845 ac 1870. Dyma ichi Hugh Derfel Hughes yn *Hynafiaethau Llandegai a Llanllechid* 1866 yn nodi am nifer o'r tai hyn:

‘nid oes fwy na 10 i 12 mlynedd er pan chwalwyd y rhai olaf’

Ac mae'n dyfynnu englynion o waith bardd lleol wrth weld hen dŷ Tyddyn Iolyn yn cael ei losgi a'i chwalu:

Mae Tyddyn Iolyn yn ulw

A'i ffyrdd ddilledir a phridd a lludw

Cyn hir hir y cawn yr arad – a'r og

Yn rhwygo'r llawr gwastad

Mae'n amlwg mai dyna fu tynged adeiladau Cefn Bedw, hefyd. Braf yw gweld olion yr hen fferm yn gweld golau dydd eto wedi mwy na chanrif a hanner o fod dan y dywarchen, er mai ei thynged yw diflannu unwaith eto, ond o dan dai y tro hwn.

Dafydd Fôn Williams

Datblygiad Tai Adra yn Rachub

Mae Cyngor Gwynedd a chymdeithas dai Adra wedi derbyn beirniadaeth am newid cynllun gwreiddiol y datblygiad tai arfaethedig yng Nghae Rhosydd heb ymgynghori'n gyhoeddus arno. Y bwriad gwreiddiol oedd

codi 15 o dai i'w gwerthu a 15 o dai i'w gosod. Roedd hyn yn gyson â pholisi Cymysgedd Tai y cyngor sir. Amcan y polisi hwnnw yw hyrwyddo datblygiad cymunedol cytbwys a chynaliadwy trwy ddarparu tai i'w rhentu gyda phobl leol yn derbyn blaenoriaeth yn unol â threfn fandio Adran Tai Cyngor Gwynedd, a darparu tai i'w prynu ar y farchnad agored a hynny am brisiau o fewn cyrraedd pobl leol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun, ond cynllun gwahanol, sef 30 tŷ i'w gosod, a gafodd ganiatâd cynllunio. Roedd hwn yn newid sylweddol o ran niferoedd a natur deiliadaeth y tai. Aeth y 15 tŷ i'w gwerthu yn 0, ac aeth y 15 tŷ i'w gosod yn 30. Mae'r penderfyniad wedi derbyn beirniadaeth leol.

Bydd rhagor yn rhifyn Chwefror o'r *Llais* am yr hyn sydd wedi digwydd.

Damweiniau Awyrennau yn Nyffryn Ogwen a'r Cyffiniau

gan Andre Lomozik

Yn rhifyn Tachwedd, ysgrifennais erthygl am awyren wedi taro yn erbyn un o'r mynyddoedd uwchben Bethesda. Ymateb i gais gan Dr J. Elwyn Hughes oeddwn. Roedd yn holi am wybodaeth ynglŷn â'r dyddiad y bu i'r ddamwain ddigwydd, ai Ionawr ynteu Mawrth 1950. Fel roedd rhifyn Rhagfyr o'r *Llais* yn mynd i'r wasg, derbyniais ddau ymateb ynglŷn â'r erthygl, un gan John Ffranc Davies, Windsor, yn fy nghyfeirio fi at lythyr roedd wedi ei anfon i'r *Llais* fis Ebrill 2020, yn hel ei atgofion o'r achlysur, ac yn cadarnhau mai ym Mawrth 1950 y digwyddodd y ddamwain ac nid ym mis Ionawr. Daeth yr ail ymateb gan Mr Glanfor Davies, Cae Clochydd, Carneddi, yn dweud fod ganddo restr o awyrennau eraill a fu mewn gwrthdrawiad â mynyddoedd Dyffryn Ogwen rhwng 1941 a 1945, a hefyd un yn 1957.

Dyma restr o'r awyrennau milwrol, ynghyd ag enw'r mynydd lle bu iddynt gwmpo. Rwyf wedi gwneud ychydig mwy o ymchwil i'r digwyddiadau yma ac wedi darganfod rhywfaint mwy o fanylion am griwiau'r awyrennau.

19-07-41 Vickers Wellington DV800 27 otu. Ysgolion Duon. Collwyd pob aelod o'r criw. Mae dau ohonynt wedi eu claddu ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon, sef Eric Harvey Longbottom (Peilot) a Rupert Theadore Bannister (Air Gunner). Roedd y ddau yn enedigol o Awstralia. Mae Lionel Denis Traylen, a Richard Ivor Bowen wedi eu claddu yn Lloegr, a Samuel James Wilson yn yr Iwerddon.

20-07-42 Blackburn Botha W5142 3 sgr. Moel Wnion. Bu i'r criw oroesi.

17-10-42 Douglas Boston Z2186 418 squ. Carnedd Dafydd. Bu i un o'r criw o dri oroesi, sef Sgt. Mervyn Sims a oedd yn enedigol o Canada. Roedd wedi torri ei goes, holli ei benglog a thorri ei asgwrn cefn. Bu yn gorwedd yn ymyl yr awyren am ddau ddiwrnod cyn cael ei achub. Y ddau a laddwyd oedd Harold Longworth, hefyd o Canada, a Ronald Walker o Loegr. Claddwyd Harold Longworth yn Llanbeblig, Caernarfon, a Ronald Walker yn Letchworth, Lloegr.

18-08-43 Lockheed Ventura AE688 464 squ. Carnedd Dafydd. Pob aelod wedi eu lladd. Roedd James Alexander Johnston, yn fab i



Avro Lincoln o'r math a darodd yn erbyn creigiau'r Bryniau Melynion yng Nghwm Pen Llafar ym 1950.

Douglas a Louisa Jane Johnston o Yelgun, New South Wales, Awstralia, ac Elio Joseph Emile Bealdry o Cut Knife, Saskatchewan, Canada, fel ag yr oedd Laurance Fullerton. Roedd Archibald Sidney Clegg o Stratford, Ontario, Canada. Maent i gyd wedi eu claddu yn Lloegr.

04-10-43 Avro Anson LT184 7aos. Mynydd Perfedd. Dim un o'r criw wedi goroesi. Claddwyd John George Shepherd, Edwin John Keightley, a John Thomas Key yn Lloegr. Yn yr Alban y claddwyd John Chrystal.

08-11-43 Avro Anson 3(o) afu. Pen yr Ole Wen. Lladdwyd yr holl griw. Roedd Ernest Andrew Hoagg o Canada, ac mae wedi ei gladdu yn Lloegr. Bachgen o Awstralia oedd John Hedgley Lewis. Mae o a Leslie John Hill a Douglas John Roberts wedi eu claddu yn Lloegr. Cafodd y pumed aelod, sef William Gavin, ei gladdu yn yr Alban.

30-11-43 Avro Anson EF909 5 aos. Foel Grach. Bu i'r holl griw oroesi. Dyma enwau'r criw: Albert James Knight, Gordon Roy Gilbert, Stanley Reed, a Leslie Thompson.

25-04-44 Avro Anson AX583 2(o) afu. Drum. Collwyd yr holl griw. Roedd pedwar o'r pump a laddwyd, sef Reginald William Thomas, George Williams, Norman Valentine Neville Robson a Wilfred Jackson, yn dod o Loegr, ac maent wedi eu claddu mewn gwahanol

fynwentydd yn Lloegr. Roedd y pumed aelod yn dod o Canada, ond mae yntau wedi ei gladdu yn Lloegr.

08-06-44 Avro Anson LT116 9(o) afu. Mynydd Perfedd. Collwyd yr holl griw. Dyma ail ddamwain gan y math hwn o awyren ar Fynydd Perfedd (Gweler Avro Anson LT184 04-10-43). Mae ychydig o ddirgelwch ynglŷn ag enwau criw'r awyren yma gan fod enwau criw yr awyren gyntaf yn cael eu nodi ar ei chyfer hi hefyd.

01-02-45 Martin B-26 Marauder 44-68072. Y Garn. Dim un o'r criw wedi goroesi. Americanwyr oedd holl griw yr awyren yma: Kenneth W. Carty, William H. Cardwell, Nolen B. Sowell, Jack D. Arnold a Rudolph M. Aguirre. Nid wyf wedi gallu dod o hyd i fwy o fanylion am yr awyren hon.

15-03-1950 Avro Lincoln RF511 230 ocu. Y Bryniau Melynion, Cwm Pen Llafar. Dyma'r awyren y soniwyd amdani yn rhifynnau Ebrill a Thachwedd. Collwyd yr holl griw.

09-12-57 English Electric Canberra WK129 rre. Carnedd Llywelyn. Lladdwyd y ddau aelod o'r criw, sef William Albert Bell a Kenneth Charles Frederick Shelley.

(Diolch i John Ffranc Davies, Windsor, a Glanfor Davies, Cae Clochydd, Carneddi, am gyfrannu o'u gwybodaeth.)

Enwau Dyffryn Ogwen

Dafydd Fôn Williams

(Diolch i Dafydd Fôn Williams am ei ganiatâd i ddefnyddio cynnwys allan o'r wefan 'Enwau Dyffryn Ogwen'. Mae o'n gweithio ar y wefan ac yn cynnwys mwy o'i waith ymchwil i enwau'r fro wrth fynd ymlaen, felly bydd ychwanegiadau a newidiadau i rai o'r nodiadau fel mae'r gwaith yn datblygu. Cwtogwyd a golygwyd ambell i ddarn er mwyn arbed gofod yn y *Llais*, ond gellir darllen yr erthygl yn llawn ar wefan D. Fôn - Enwau Dyffryn Ogwen.)
D.R.

EGLWYS LLANLLECHID
Rhan 2

Beth am y Llechid yn yr enw? Y gred boblogaidd yw mai enw'r sant a sefydlodd y llan yn wreiddiol yw'r ail elfen yn y gair yn y mwyafrif helaeth o enwau o'r fath. Y broblem fawr yw bod sefydlu'r llannau ac Oes y Seintiau ymhell, bell yn ôl yn niwloedd y gorffennol. Mewn cyfnodau pan oedd pwysau ar yr eglwysi brodorol, yn enwedig cyfnod goresgyniad y Normaniaid yn yr 11ganrif, a hanner cyntaf y 12fed, roedd angen gwrthsefyll y pwysau trwy bwysleisio hynafiaeth, a phwysigrwydd, pob eglwys a phob sant. Oherwydd hyn, 'crëwyd' hanes i'r 'sefydlydd', hanes sydd, oherwydd natur cyfnod y creu, y Canol Oesoedd cynnar, yn aml yn hynod o wantan. Yn y Canol Oesoedd, yn wir, hyd at lai na dwy ganrif yn ôl, roedd hanes a chwedloniaeth bron yn un peth.

Ni ellir, felly, roi coel ar y ddau beth, sef fod ail elfen pob llan yn enw sant, ac, yn sicr, fod 'hanes' ei fywyd yn hanes.

Yn gyffredinol, mae pum math o enw sy'n gallu dilyn yr elfen 'llan'.

Yn gyntaf, mae'n gallu bod yn enw'r sylfaenydd.

Yn ail, gall fod yn llan a sefydlwyd yn enw, ond nid yn bersonol gan arweinydd crefyddol amlwg yn ei gyfnod. Mae sawl Llanddewi, er enghraifft.

Gyda'r trydydd dosbarth rydym yn camu i dir mwy sigledig. Mae lle cryf i greu y byddai'r llan weithiau yn cael ei enwi ar ôl y pennaeth lleol fyddai wedi rhoi'r tir ar ei gyfer, neu aelod o'i deulu, fel arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad.

Yn bedwerydd, mae'r llannau hynny sy'n cario disgrifiad o'u lleoliad. Mae'n amlwg ble'r



oedd y 'llan' yn Llangoed, er mai Cawodaf yw'r sant, ac roedd eglwys gyfagos Llanfaes yn amlwg mewn lle agored.

Yn olaf, mae'r llannau rheiny sy'n cario enwau seintiau tramor, cymeriadau o'r Beibl, fel arfer. Daeth y rhain i Gymru gyda'r Normaniaid, gan ddisodli hen seintiau brodorol o'u heglwysi, neu wrth godi eglwysi newydd. Dyna sy'n gyfrifol am bob Llanfair, Llanbedr, Llanfihangel, ac yn y blaen. A hyn sy'n gyfrifol, i raddau helaeth, am y bywgraffiadau a grëwyd i bob 'sant' brodorol.

Yn ôl yr 'hanes', santes oedd Llechid, merch y brenin Ithel Hael o Lydaw, a ddaeth i'r ardal yma yn y chweched ganrif, gyda'i brodyr, Tegai, Trillo, Baglan, Rhychwyn a Thwrog, gyda phob un yn sefydlu llan. Mae'r cyfeiriad cynharaf sydd gennym ati yn dod o farddoniaeth Lewys Glyn Cothi yn y bymthegfed ganrif, pan yw'n sôn am 'fedd Llechid'. Er mai gŵr o Ddyfed oedd Lewys, nid yw hynny'n golygu fod gwybodaeth am Llechid yn genedlaethol, gan fod lle i greu i Lewys, ynghyd ag Owain ap Gruffydd ap Niclas, fod ar herw yng Ngwynedd am gyfnod yn dilyn brwydr Mortimer's Cross. Yn ogystal roedd Lewys yn crwydro Cymru gyfan ar ei deithiau clera (fel bardd), ac mae tystiolaeth ei fod yn hoff iawn o'r gogledd-orllewin, Môn, yn arbennig. Mae cyfeiriad Lewys at Llechid naw canrif, a'r rheiny'n ganrifoedd niwlog iawn, wedi cyfnod sefydlu llan Llechid; mae Lewys dair canrif a hanner yn nes atom ni heddiw nag oedd 'Llechid' at Lewys. Mae'r 'hanes' am ei bywyd a'i brodyr yn dod o gyfnod diweddarach, o gyfnod, fel y soniwyd, ble nad oedd ffin rhwng hanes a chwedl. Fe ddisgrifiodd William Williams, Llandygái, ddyfodiad Llechid a'i brodyr i'r ardal o Lydaw, ac fe'i dilynwyd gan bawb wedi hynny. Ond rhaid cofio fod Williams yn ysgrifennu yn yr un ganrif ag y cyhoeddodd Theophilus Evans *Drych y Prif Oesoedd*, cyfrol o 'hanes' Cymru sy'n cymryd fel ei sail, chwedloniaeth bur, ac yn ei adrodd fel pe bai'n efengyl. Yn wir, roedd cyfrol Williams, *Prydnawngwaith y Cymry*, (cwblhawyd 1804, cyhoeddwyd

1822) i fod, yn ôl y broliant, yn ddilyniant i gyfrol Theophilus Evans. Er ei fod yn ceisio bod yn fwy gwyddonol ei ymdrechion, rhaid cydnabod mai yn y cyd-destun hwn y dylid ystyried cyfraniadau William Williams. Roedd yn alluog iawn mewn sawl maes, yn bolimath, a dweud y gwir, ond nid oedd yn hanesydd, dim ond yn ddyn ei gyfnod. Dydy'r ffaith fod Lewis Glyn Cothi, a William Williams yn cyfeirio at santes Llechid, ddim yn rhoi unrhyw sicrwydd i hynny – o bell ffordd!

Rŵan, rydw i am awgrymu posibilrwydd arall i'r 'llechid'. Byddai'r cynnig yn symud yr enw 'Llanllechid' o'r dosbarth cyntaf o lannau i'r trydydd, sef y llannau sy'n cael eu dilyn gan nodwedd ddaearyddol y llan. Fel y nodwyd, mae'r cwmwd yn Arllechwedd, ac mae'r llan ar y llechwedd. Tybed mai 'llech'/'llechwedd', sydd y tu ôl i'r ail elfen yn yr enw, ond, i'r gair lleoliadol droi, dros amser, yn enw person, ac i honno gael hanes. Mae darn o dir mynyddig ym Mannau Brycheiniog, ger Pontsenni, o'r enw Cefn Llechid: nid oes neb erioed wedi awgrymu mai cefn santes, nag unrhyw berson, a dweud y gwir, yw ystyr hwnnw, ac nid oes neb wedi amau mai 'llechwedd' yw gwreiddyn yr enw. Mae'n sicr fod datblygu enw elfen ddaearyddol yn enw priod yn digwydd; fe ddigwyddodd, mae'n weddol sicr, mewn achos llawer mwy enwog, pan droes' y llan yn y twyni' yn Llanddwyn, ac y daeth y 'twyni' yn 'Dwynwen', ac iddi hithau gael hanes, cymaint o hanes, yn wir, fel y bu iddi dyfu'n nawddsant cariadon Cymru! Yn sgil hynny, daeth â llawer o gyfoeth i'r eglwys honno yn y Canol Oesoedd, gan bererinion a chariadon, gannoedd ohonynt. Does dim cyfoeth mewn twyn tywod, ond mae Dwynwen yn fwynglawdd!

Ac, os ydy eglwys gyfagos i Lanllechid, a adeiladwyd yn 1892, yn cael ei thadogi i ryw St Cross bondigrybwyll, er iddi gael ei chodi ar Faes y Groes (sef 'croesffordd'), yna hawdd credu mai'r eglwys ar y llechwedd yw'r llan a sefydlwyd 1,500 o flynyddoedd yn ôl yn ucheldir yr un drefgordd.


CROESAIR

AR DRAWS

- 1 Bu'n well na map na Sat Nav i'r tri doeth (5)
- 4 'Cyrraedd' efo'r gog mae'r blodau gleision yn ôl RWP (5)
- 10 Rhoi cusan dwyllodrus a ffals un o'r deuddeg (7)
- 11 Un wen fel yng nghân adnabyddus Tecwyn Ifan (1,4)
- 12 Neges fer, ar y piano efallai (5)
- 13 Creu llyfr garddio i ddangos sut i garu'r ffa yn gywir (7)
- 15 Nid pysgodyn gafodd hon i de yn y grug (KR) (4)
- 17 Arwain y sant byr yn ôl yw y peth diogelaf (5)
- 19 I gasglu trethi fel yng nghyfnod Merched Beca (5)
- 22 Mae'n siwr fod rhai brith yn dychwelyd i goleg actio RADA (4)
- 25 Anrhydeddwyd DILG i fyd ucha'r maes gwleidyddol fel Prif Weinidog (7)
- 27 Meddyg mewn ogo flêr yn cael llefrith (5)
- 29 Nid erys am neb ac ni ellir ei atal (5)
- 30 'Gwell yw enw da nag ----- gwerthfawr' (dihareb feiblaidd) (7)
- 31 Ffol, twp a dwl (5)
- 32 Priodolir ystyfnigrwydd i'r anifeiliaid gweithgar hyn (5)

I LAWYR

- 2 Ein perthnasau agosaf ym myd natur (5)
- 3 Bedd dyfrllyd yr hen Lanwddyn (7)
- 5 Yng nghanol (5)
- 6 A gollodd ceffyl y Sais un o'i bedolau yn y bwlch yma ger Llangollen? (7)
- 7 O ben i wraidd y goeden hon, hi yw un o'r caletaf (5)
- 8 Grwgnach a swnian (5)
- 9 Sôn fu am fod yn bryderus a nerfus (5)
- 14 Enw merch, fel yr hynaf yn "Coronation Street" (4)
- 16 Saif yn flêr ar waelod y pentwr (4)
- 18 I gŵn defaid a beirdd gael profi eu gallu (7)
- 20 Y gorau na ellir rhagori arnynt i gynnal y corff (7)
- 21 Rhan o fudiad fel yr Urdd (5)
- 23 Fel bol buwch (5)
- 24 Un o sgiliau'r chwarelwyr gynt (5)
- 26 Cadwyn am wddw'r fuwch (5)
- 28 I ddad-wneud 16 I Lawr (5)



Enw:

Cyfeiriad:

ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2021

AR DRAWS 7 Rhwyf, 8 Ian, 9 Wyau, 10 Celain, 11 Sadwrn, 12 Eli, 13 Ffarwel, 14 Gwasgu, 16 Tunnell, 19 Ffensio, 21 Ysu, 22 Deallus, 24 Gweini, 25 Cwrs, 26 Ann, 27 Y Gŵr/Yfwr

I LAWYR 1 Gwleda, 2 Y Frân Wen, 3 Sianel, 4 Ynysig, 5 Bwyd, 6 Sarrug, 15 Annhebyg, 17 Uchelwr, 18 Llysiau, 19 Ffugenw, 20 Ionawr, 23 Llesg

Ychydig o gamgymeriadau gafwyd. Rhoddwyd 'yawe' yn ateb i 27 Ar Draws; 'swpera' yn lle 'gwleda' (1 I Lawr); 'yfed' yn lle 'bwyd' (5 I Lawr) a 'fran' yn hytrach na 'wyau' (9 Ar Draws).

Dyma'r cynigion oedd yn hollol gywir: Doris Shaw, Bangor; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Elizabeth Buckley, Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gill King, Mynydd Llandygai; Gwenda Roberts, Rhosmeirch.

Yr ymgais sy'n mynd â'r wobr y mis hwn ydi un Jean Vaughan Jones, 12 Hafod Lon, Rhiwlas, Bangor, Gwynedd LL57 4GD. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Atebion erbyn 4 Chwefror, 2022 fan bellaf i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

Natur o'n Cwmpas

Aderyn Llwynog

Aderyn yr ucheldir ydi mwyalchen y mynydd (*Turdus torquatus*) ac mae'n perthyn i deulu'r fronfraith. Erbyn hyn, mae'n cael ei ystyried yn aderyn prin er ei fod yn dal ei dir mewn rhannau o Eryri. Yr enw arno yma yn Nyffryn Ogwen ydi aderyn llwynog, ac fel y gellid disgwyl mae yna reswm dros hynny. Pan fydd llwynog yn y cyffiniau, bydd yr aderyn hwn yn sboncio o graig i graig yn galw'n gynhyrfus 'tac-tac-tac', ac mae'n ddiddorol nodi nad oes gan yr un o'n hadar eraill enw sy'n cynnwys yr elfen 'llwynog'.

Mae ei gân arferol yn swynol – ychydig nodau dwbl neu drebl – 'tsherw', 'tshifi', 'ti-tsho-o' yn cael eu hail-adrodd. Ond eich siawns orau i ddod o hyd iddo ydi pan fydd yn taro un nodyn clir dair neu bedair gwaith gyda saib byr rhwng pob nodyn. (Er gwybodaeth: gweler y fideo **Ring Ouzel singing in the UK** ar **You Tube** i glywed yr alwad hon.)

Mae'r ceiliog yn debyg i geiliog mwyalch yn ei blu du, ond mae ganddo blu gwyn ar ffurf lleuad gorniog ar ei fron, ac ychydig o wyn ar flaenau rhai o blu ei adenydd. Brown, fel y fwyalchen, ydi lliw'r iâr, efo'r gwyn ar y fron yn llawer mwy pŵl. Rhyw 23cm (9 modfedd) ydi ei hyd ac mae'n



pwysu tua 110g. Ei fwyd ydi pryfed genwair, trychfilod ac aeron. Yn yr ucheldir, bydd aeron llus, criadol, llus y brain ac eithinen bêr yn ymborth maethlon wrth law. Ar dro, daw o'i gynefin arferol i goedlan ar lawr y dyffryn a hyd yn oed i erddi i chwilio am fwyd. Gwelwyd un rai blynyddoedd yn ôl yn bwyta aeron y gelynen mewn gardd yn y Carneddi.

Aderyn swil ydi o, a bydd yn gwibio y tu ôl i greigiau er mwyn osgoi tresmaswyr. Bydd yn treulio amser yma yn magu rhwng Mawrth a Medi, ac mae o yn ei elfen yn y gweunydd ac ar glogwyni mewn tirwedd sydd tua 300m (1,000tr) uwchlaw lefel y môr. Dyna pam bod cymoedd crog Nant Ffrancon yn un o'i gadarnleoedd yng Ngwynedd. Gwelwyd un yno y

llynedd wrth droed y Creigiau Gleision yng ngheg Cwm Coch rhwng Blaen y Nant a Phentre. Llecyn hyfryd arall i'w weld o ydi Marian Rhaeadr Fawr uwchlaw Abergwyngregyn.

Mae'r adar hyn yn nythu yn niwedd Ebrill ac mae'n bur gyffredin iddyn nhw gael dau nythaid o gywion. Yna, ddiwedd Awst a dechrau Medi, i ffwrdd â nhw i aeafu yn Sbaen ac ym Mynyddoedd Atlas yng ngogledd-orllewin Affrica, gan ddewis yr ucheldir yn gynefin yno hefyd.

Wydddech chi ...?

– fod robin goch gwyn wedi ei weld yn Llanberis yn 1998, a gwennol wen yng nghyffiniau Niwbwrch ganol Awst 2021. Pan fo ffaeomelanin yn absennol neu'n brin iawn yng ngorff

creadur, bydd diffyg lliwiad yn achosi iddo gael ei eni'n hollol wyn neu'n rhannol wyn.

- fod ein hardal yn hen gadarnle i'r frân goesgoch. Enwau eraill arni ydi brân Cernyw a brân Arthur. Un o'i chynefinoedd traddodiadol ydi Carreg y Gath yng ngheg Cwm Ffynnon Gaseg.
- fod yr afanc yn greadur cyffredin ym marddwr Ogwen yn Nant Ffrancon hyd at ryw 400 mlynedd yn ôl. Mae'r enw Sarn yr Afanc yn tystio i hynny. Aeth afancod allan o fod oherwydd iddynt gael eu hela am eu crwyn a'u chwarennau sawr, ond mae bwriad i gyflwyno afancod o'r newydd i rai afonydd yma yn y gogledd.

- fod 20 math o redynen wedi eu cofnodi rhwng Bethesda a Chapel Curig.

Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth arbenigol naturiaethwyr lleol ac eraill sydd â diddordeb gwybodus yn y maes eang hwn. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG i ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun, 14 Chwefror am 7 o'r gloch

DR. DAVID JENKINS

"Cyda'r amcan o roddi cyfleusterau i chwarelwyr Bethesda wneud defnydd enillfawr o'u harian" – hanes Cwmni Llongau Bethesda, 1877 - 1898

Wyneb yn wyneb: Yn Festri Capel Jerusalem
Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

Rhithiol dros Zoom: Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org

Cofrestrwch erbyn **12 o'r gloch dydd Llun** y ddarlith **£1.50** wrth y drws, neu am ddim i aelodau.



Manylion Cyswllt
Cynghorwyr Sir
Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinaltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

 @CynghorwyrDyffrynOgwen

 @PlaidCymruOgwen

CHWILAIR

IONAWR



Pentrefi Gwynedd

B	R	I	T	N	E	P	A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B
V	E	B	H	A	F	O	N	W	E	N	X	J	U	M	I	S	V	S	H
E	I	D	M	T	U	D	W	E	I	L	I	O	G	Y	G	V	H	M	D
W	H	U	D	Z	D	M	X	V	A	D	D	N	A	N	P	A	U	Q	U
S	O	F	R	G	P	E	Y	Q	Z	G	R	H	C	Y	U	M	W	N	O
Y	R	I	A	S	E	Z	I	U	T	F	D	X	U	T	P	W	R	H	C
Q	H	W	E	H	O	L	Y	N	E	E	G	E	O	H	M	H	E	P	T
T	C	B	B	C	U	U	E	J	I	P	L	T	M	O	I	V	V	D	C
B	G	B	F	R	F	O	G	R	J	O	V	I	I	R	R	X	I	M	H
T	O	T	O	S	K	O	P	W	T	R	L	C	M	K	C	B	O	N	R
C	R	X	V	R	Y	H	S	T	M	R	E	E	F	Y	J	D	Z	O	H
B	D	C	W	O	S	C	A	R	I	X	N	I	N	L	X	J	R	R	J
M	E	B	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	N	P	C	Q	O	A	Y
O	B	I	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	O	T	D	G	W	S	D	S
L	N	Z	E	B	E	A	J	K	J	C	L	L	N	L	R	V	E	R	O
G	A	J	P	W	P	G	S	O	W	S	J	J	Q	U	L	F	O	E	S
V	L	T	C	A	R	M	E	L	E	X	E	U	G	H	S	L	R	B	Z
E	L	A	G	A	R	N	D	O	L	B	E	N	M	A	E	N	C	A	F
X	W	I	T	Z	H	K	R	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K	O
G	D	H	B	S	I	G	U	R	O	X	A	G	X	R	A	E	E	K	K

Yn y Chwilair y mis yma mae ENW DEUDDEG PENTREF YNG NGWYNEDD i'w canfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddiill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW,

erbyn IONAWR 27. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r nifer agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i mewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.** **Dyma atebion Chwilair Rhagfyr:-** Buchanan, Clinton, Jackson, Jefferson, Kennedy, Lincoln, Nixon, Obama, Roosevelt, Taylor, Truman, Washington.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:- Doris Shaw, Bangor; Gwilym Edwin Williams, Kettering; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Anne Conlan, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygái; Carys Parry, Glanogwen; Maureen Evans, Talybont; Wendy Eccles, Llanllechid; Rosemary Williams, Tregarth. **Enillydd Rhagfyr oedd.** Emrys Griffiths, 5 Llwyn, Rhosgadfan, Caernarfon, LL54 7HN.

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda (600853)
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

Pwy erioed feddyliai, ar ddechrau'r pandemig Coronavirus, y byddem yn dal i ysgrifennu amdano bron i ddwy flynedd yn ddiweddarach?

Mae geiriau fel 'amrywiolyn', 'profion llif unffordd' a 'hunan-ynysu' wedi dod yn rhan o'n geirfa bob dydd erbyn hyn, ac yn llithro'n rhwydd oddi ar dafod pob Cymro a Chymraes. Byddai'n braf meddwl mai 2021 oedd y flwyddyn olaf inni orfod eu defnyddio ond, yn anffodus, 'dydi hi ddim yn edrych yn debygol; ddim ar hyn o bryd, beth bynnag.

Brysiwch wella!

Ni fynnai neb dreulio'r Nadolig yn yr ysbyty, er mor ffeind ac ymroddgar yw'r staff, ond dyna fu hanes Sheila Owen (Redfern) druan. Dioddefodd ddamwain gas yn ei chartref, 'Millbank', ar ddiwedd mis Tachwedd, a chael ei throsglwyddo o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri ar y 10fed o Ragfyr. Mae hi'n disgwyl dod adref cyn bo hir, a chymdogion Dolhelig i gyd yn edrych ymlaen at ei gweld. Peth dieithr iawn, oherwydd Covid, ydi peidio cael mynd i edrych am deulu a ffrindiau i'r ysbytai a Chartrefi'r Henoed. Mae'n rhan o'n ffordd Gymreig o fyw, rywsut. Brysia wella, Sheila, a chymer ofal!

Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i unrhyw un o drigolion Talybont sydd wedi gorfod mynd i'r ysbyty, am beth bynnag reswm, neu wedi dioddef pwl o salwch dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Eirlys Ellis, 'Almora', 20 Bro Emrys. Bu farw ei hannwyl chwaer, Owena, ar y 11eg o Ragfyr, yn dilyn gwaeledd, a ddioddefodd gydag urddas a gwroldeb. Cofiwn yn gynnes iawn at y teulu i gyd yn eu galar.

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at Janet Barker, a'i mab James, 8 Dolhelig. Bu farw Mrs Caroline Barker, mam Janet a Jaqueline (Llanfairfechan) ar y 18ed o Ragfyr. Cofiwn hefyd at Mr Idris Barker, gŵr Caroline, a fagwyd ym Melin Cochwillan.

Tacluso Talybont!

Unwaith eto, diolchwn o waelod calon i Julian Johnson am weithio mor galed, ac yn gwbl wirfoddol, i gadw Talybont a'r cyffiniau yn daclus. Fel y dywedodd rhywun, yn ddi-flewyn ar dafod, "Oni bai am Julian, 'fasa'r lle 'ma'n real tip". Gwir bob gair, yn anffodus.

Beth am wneud adduned Blwyddyn Newydd i hel pob tamaid o sbwriel o gwmpas ein tai ni'n hunain i ddechrau? Rydw i'n siwr y gwnâi andros o wahaniaeth i olwg y pentref.

Blwyddyn Newydd Dda, iechyd di-fai a phob bendith i drigolion Talybont a'r Dyffryn i gyd!

Capel Bethlehem

Cydymdeimlo
Newyddion trist iawn i ni ym Methlehem oedd clywed am farwolaeth Owena, chwaer un o'n haelodau ffyddlonaf, sef Mrs Eirlys Ellis. Anfonwyd ein cydymdeimlad dwysaf at Eirlys ar ran y gynulleidfa.

Oedfa Nadolig
Cynhaliwyd oedfa i ddathlu'r Nadolig brynhawn Sul, 19 Rhagfyr. Gwnaed casgliad arbennig, ac fe lwyddwyd i anfon y swm o £200.00 tuag at waith pwysig Cymorth Cristnogol.

Rhoddion Elusennol
Yn y cyfnod anodd presennol, mae'n dda medru cofnodi ein bod, fel Eglwys, wedi gallu cyfrannu'r swm o £300.00 rhwng pedair elusen leol. Anfonwyd £75.00 yr un i Hosbis Dewi Sant, Ambiwylans Awyr Cymru, Cyfeillion Ysbyty Gwynedd a Tŷ Gobaith.

Oedfaon (am 2 o'r gloch)
Yn anffodus, ni lwyddwyd i gynnal oedfa ar Sul cynta'r flwyddyn am fod y Parchedig Geraint Roberts wedi gorfod tynnu'n ôl oherwydd y cofid. Dymunwn yn dda iddo gan edrych ymlaen at ei groesawu i Fethlehem ym mis Mawrth.

23 Ionawr: Y Gweinidog.
30 Ionawr: Parchg Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon.
06 Chwefror: Parchg Eric Jones, Bangor.
13 Chwefror: Y Gweinidog.
20 Chwefror: Parchg Trefor Lewis, Bae Colwyn.
27 Chwefror: Y Gweinidog.
Croeso cynnes i bawb. (Rhaid gwisgo mwgwd.)

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel

1 Ffordd Garneddwen

Bethesda

600763 neu 07708 008051

GWASANAETH DYDD A NOS

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.

Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com



C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Caergybi 01407 728728

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst



Nyth y Gân



YRAFR FYNDD
Mae'n haeddu'r lle mynyddig, – a hynod
Yw hon ar y cerrig;
Ninnau'n ei gweld hi'n unig
Yn ei bro ger copa'r brig.

DWY OES
Mae'r meddwl yn beth rhyfedd,
Ac aiff â ni yn ôl
I ddyddiau ein plentyndod,
I gyfnod crud a siôl.

Oes hynod oedd bryd hynny
Pan oeddem ni yn blant
Yn creu ein hwyl ein hunain
Mewn ffridd ac yn y nant.

Mor braf oedd chwarae cuddio
Dan olau'r lloer a'r sêr,
A rhannu llawer stori,
Rhai chwerw a rhai pêr.

Gwneud tân fu'n weithred ddifyr
Mewn gardd uwch cefn y tŷ,
A rhostio tatws arno
Nes byddai'r croen yn ddu.

Ychydig iawn sy'n cofio
Am hwyl ein dyddiau gwyn;
Plant newydd a ddaeth bellach
Na wyddant ddim am hyn.

Y CREIGWYR
Yn canu y bu'r cynion, a manu
Y meini o'r plygion;
Llafur a dur y dewrion
Yn y rhaff fu'r fenter hon.

Y PANDEMIG
Ar led bu'n anweledig, – yn sydyn
Arswydus drybeilig;
Heddiw daeth i gwrdd â dig
O'i alanas fileinig.

Dafydd Morris

SIOP OGWEN

yn cynnig gwasanaeth

CLIC A CHASGLU

Llawer o Nwyddau
Newydd
gan Grefftwyr Newydd
wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch
ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar
yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH
LLEOL**

Pennill Cofiadwy

Tybed faint ohonoch chi a
ddysgodd y pennill hwn o waith
Eifion Wyn (rhan o gerdd yn ei
gyfres Telynegion y Misoedd) yn
yr ysgol?

Ionawr
Wyt Ionawr yn oer,
A'th farrug yn wyn;
A pha beth a wnaethost
I ddŵr y llyn?
Mae iâr fach yr hesg
Yn cadw'n ei thŷ,
Heb le i fordwyo
Na throchi ei phlu.



Ysgol Pen-y-bryn ac Ysgol Abercaseg

Trip ysgol – Pili Palas
Braf oedd gweld plant Abercaseg yn cael diwrnod i’w gofio yn Pili Palas. Cafodd y plant gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau hwyliog yn cynnwys addurno bisgedi, lliwio, ymweld â’r anifeiliaid, chwarae tu mewn a thu allan ar y ffrâm ddringo, ac wrth gwrs cyfarfod a chael anrheg gan Siôn Corn!

Diwrnod siwmpwr Nadolig
Roedd Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg yn fwrlwm i gyd ar Ragfyr yr 8fed gyda phawb yn eu siwmpwr Nadolig. Eleni, penderfynodd y Sgwad Syniadau fod yr arian a gasglwyd am gael ei roi tuag at brynu nwyddau i westeion Plas Ogwen. Gyda’r rhestr yr oeddent wedi ei pharatoi, aeth aelodau’r Sgwad Syniadau i Tesco i brynu ‘hairspray’, bisgedi, siocled, sebon a llawer iawn mwy. Roedd y preswylwyr a staff Plas Ogwen yn andros o

ddiolchgar, a diolchwn iddyn nhw am ein cael ni draw.

Partneriaeth Tirwedd y Carneddau
Diolch yn fawr i Beca o Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau am ymweld â chriw o Ben-y-bryn. Cawsom gyfle i godi cwr y llen ar bwysigrwydd gwarchod enwau cynhenid Cymraeg yn ogystal â dysgu am ein hanes lleol.

Cinio Nadolig
Roedd cyffro mawr yn y ddwy ysgol ar fore dydd Mercher, Rhagfyr 8fed. Roedd hi’n ddiwrnod cinio Nadolig ac roedd y plant yn cael gwisgo eu siwmpwr Nadoligaidd. Coginiodd Anti Marian ac Anti Nerys wledd Nadoligaidd i bawb. Diolch yn fawr i holl staff y gegin am eu gwaith caled.

Cyngerdd Nadolig 2021
Fel y gwyddoch, mae’r sefyllfa bresennol gyda lledaeniad Covid-19 yn ei

gwneud yn anodd iawn i gynnal cyngerdd Nadolig fel yr ydym yn ei gael fel arfer. Ond, er mwyn sicrhau fod plant Penybryn ac Abercaseg yn cael profiadau gwerthfawr a chofiadwy llwyddodd y ddwy ysgol i greu gwasanaethau rhithiol ar gyfer y rhieni eto eleni!

Y flwyddyn yma, rydym wedi canolbwyntio ar ‘Stori’r Geni’ gyda phob dosbarth yn cyflwyno agwedd wahanol i’r stori. Mae’r plant wedi bod yn brysur yn ymarfer, canu, actio a ffilmio’r perfformiad er mwyn creu cyngerdd wych. Diolch i’r plant am weithio mor galed i gynhyrchu cyngerdd Nadolig ffantastig. Da iawn, chi!

Mae staff a disgyblion Ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg yn dymuno blwyddyn newydd dedwydd a diogel i holl ddarllenwyr *Llais Ogwan*.



Londis Bethesda

01248 605566

Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost

Gwasanaeth personol gyda’r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

Cysgod y Castell

“Tybed a ddylid ailgodi’r ymgyrch am Ymddiriedolaeth Genedlaethol go iawn i Gymru? Ystyr y ‘cenedlaethol’ yn enw’r elusen ar hyn o bryd yw

Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Mae’r Alban, fel mewn cymaint o feysydd, yn genedl eisoes mae’n debyg. Oni ddylem roi trefn ar ein tŷ ein hunain gyntaf?

“Yn ôl Mesur Addysg Llywodraeth Cymru mae disgybl o Gymru yn debyg o glywed am gyswllt teulu Castell Penrhyn â

chaethwasiaeth fel rhan o’r maes llafur, ond am nad yw Hanes Cymru yn hanfodol ni fydd arwyddocâd Streic y Penrhyn na dioddefaint teuluoedd Dyffryn Ogwen yn haeddu’r un sylw. Pam?”

• Alun Ffred Jones yn y cylchgrawn *Barn* (rhifyn Rhagfyr/Ionawr 2021/2022)

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen,
Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

Cydymdeimlo
Ar y 9fed o Ragfyr bu farw Eilir Glyn Jones yn 58 mlwydd oed, dim ond ychydig fisoedd ar ôl claddu ei fam, Mrs Valmai Jones. Roedd ei dad, Robert Jones, wedi marw rai blynnyddoedd ynghynt. Bu gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Bangor ac roedd wedi trefnu popeth ei hun, a'i fodryb, Eunice, a'i ewythr, Humphrey, yn gofalu fod popeth yn unol â'i ddymuniad. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch Huw John Hughes a fu'n diwtor iddo pan oedd yn y coleg yn hyfforddi i fod yn athro, gyda Mrs Einir Wyn Williams wrth yr organ. Wedi cwblhau ei gwrs, roedd ei swydd gyntaf yn Ysgol Cae Top, Bangor ac yn ddiweddarach bu'n ddirprwy yn Ysgol Cymerau, Pwllheli ac yna yn brifathro

yn Ysgol Bodfeurig. Wedyn penderfynodd fynd i weithio gyda phlant â phroblemau dwys ganddynt. Roedd Eilir, fel ei fam, yn hoff o gerddoriaeth a bu'n aelod o Gôr y Penrhyn a Hogiau'r Bonc a braf oedd gweld cynifer ohonynt yn yr angladd a'r canu yn fendigedig.

Diolch
Dymuna Eunice, Humphrey a'i frawd, Rheon, ddiolch i aelodau'r côr am eu presenoldeb ar ddydd yr angladd ac am eu ymholiadau cyson pan oedd Eilir yn wael. Diolch hefyd i Emyr Vaughan Evans am ei deyrnged ar ddydd yr angladd. Diolch hefyd i'r Parch. Huw John Hughes ac i Einir am eu gwasanaeth yn yr Amlosgfa. Diolch am y rhoddion hael er cof amdano tuag elusennau o'i ddewis. Derbyniwyd englyn er cof amdano gan Dilwyn Owen ac mae'r teulu yn ei drysori.

Dymuno'n dda
Nid yw Gareth Williams, Caeau Gleision wedi bod yn dda yn

ddiweddar ac anfonwn ein dymuniadau gorau ato. Brysia wella, Gareth. Rydym yn dy golli'n arw, ac rwyf yn hynod o gymwynasgar yn enwedig yn y Neuadd. Rydw i'n edrych ymlaen i glywed sŵn cloch y beic unwaith eto ac i gael sgwrs a rhoi'r byd yn ei le.

Bod yn ofalus
Daeth 2021 i ben, a'r cofid yn ddrwg unwaith eto ac mae'n rhaid inni fod yn ofalus a gwrando ar yr hyn mae'r arbenigwyr am inni ei wneud.

Pob dymuniad da yn 2022 gan fawr obeithio y bydd pethau'n gwella. Cofion atoch i gyd, yn enwedig y rhai sydd heb fod yn dda.

Gwynt Chwarel Robat Jôs
Yn ei lyfr *Am y Tywydd*, mae'r awdur Twm Elias yn nodi, *'mai'r Pab Nicolas 1af yn y nawfed ganrif a bennodd y dylsai pob prif eglwys godi ceiliog gwynt ar ei thŵr. Gwnaeth hyn er mwyn i'r bobl ddarllen y tywydd yn well ac i'w hatgoffa am Pedr yn gwadu'r lesu deirgwraith cyn caniad y ceiliog.'*

Mae gennyf geiliog gwynt yma'n 'Rallt Uchaf ac mae'n ddiddorol sylwi fel mae'r gwynt yn newid cyfeiriad a hynny'n dylanwadu ar y tywydd. Mae hyn yn arwain i nifer o ddywediadau megis *'gwynt o'r môr, glaw yn stôr'* a *'gwynt o'r tir, tywydd teg cyn hir.'* Mae gwynt y dwyrain yn gallu rhoi tywydd sefydlog inni, ond gall fod yn oer iawn ac os yw'n gysylltiedig gydag antiseiclon, cawn wyntoedd cryfion yn cylchdroi. Rydym yn gyfarwydd â'r enwau canlynol am wynt y dwyrain, *'gwynt traed y meirw'* a *'gwynt y dwyrain, gelyn milain'*.

Ar ddiwrnod gwyntog o'r dwyrain, a'r dail yn chwyrlïo o gwmpas ein traed, daeth Iona â dywediad newydd i'm sylw.

Adroddodd fod pobl Rhiwlas yn arfer galw gwynt o'r dwyrain yn *'gwynt Chwarel Robat Jôs'*. Bu i Dilys gadarnhau a thystio y byddai hi, ei theulu a phentrefwyr Rhiwlas yn defnyddio'r disgrifiad dan sylw am wynt y dwyrain. Credaf fod y dywediad yma'n unigryw i'r pentref a bod angen tynnu sylw'r darllenwyr ato er mwyn sicrhau bod yr ymadrodd yn parhau i gael ei ddefnyddio gan drigolion lleol.

Y cwestiwn sy'n codi ydy ble mae Chwarel Robat Jôs? Roeddwn yn weddol sicr o leoliad y chwarel achos bûm yno lawer gwaith ac mae'n union i'r dwyrain o'r pentref. Roedd y chwarel yn hawdd iawn i'w darganfod flynyddoedd yn ôl, ond erbyn hyn mae grug yn prysur guddio'r lleoliad. Eto, nid oedd gennyf brawf mai hon oedd Chwarel Robat Jôs er imi chwilio mewn hen gofnodion sawl gwaith dros y blynnyddoedd. Daeth Dilys â chadarnhad mai dyma'r chwarel dan sylw ac weithiau defnyddiwyd yr enw Chwarel Robin Jôs hefyd.

Mae Chwarel Robat Jôs/Robin Jôs tua 380 metr i fyny ar lethrau Parc Drysgol. Does dim i'w weld y dyddiau yma ond lleoliad y tyllu a dwy domen eithaf sylweddol. Nid oes olion adeiladau nac offer, a thybir mai chwarel ar raddfa fechan iawn byddai wedi bod, yn cael ei gweithio gan aelodau teuluol a/neu ffrindiau.

Mae'r chwarel yn codi sawl cwestiwn: Pwy oedd Robat Jôs? Pryd gweithiwyd y chwarel? Beth oedd safon y cynnyrch? Pa mor llwyddiannus oedd y fenter? A gafwyd caniatâd gan Stad y Faenol? Oedd yn ymgais i chwilio am waith yn ystod Streic Fawr y Penrhyn 1900-1903? Os oes unrhyw un gyda gwybodaeth am Chwarel Robat Jôs a fydddech cystal â chysylltu gyda mi.

Cynrig

HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

 01286 672076

 70 Stryd Fawr, Bangor

 hywel.williams.mp@parliament.uk



YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

 sian.gwenllian@senedd.cymru

 01286 672 076

 70 Stryd Fawr, Bangor



Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus



JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)





Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Mae'n bur debygol y gallai'r rhan fwyaf ohonoch gyfrannu llawer o atgofion i'r golofn hon. Mae gynnwys ni i gyd amrywiaeth o atgofion – rhai trist, rhai doniol, rhai am droeon trwstan, rhai o wahanol gyfnodau yn ein hanes (plentyndod cynnar, dyddiau ysgol, arddegau, gwyliau, gwaith, etc.), gyda phlant a phobl yn chwarae eu rhan mewn sawl atgof. Byddwn yn cofio hefyd am atgofion sy'n gyffredin i nifer o bobl ac yn adleisio stori neu ddigwyddiad a ddaw i gof ac o brofiad rhywun arall.

Dw i bob amser yn falch fy mod wedi cael fy magu ymysg 'gwerin gyffredin ffraeth' Braichmelyn, lle'r oedd pawb, fwy neu lai, ar yr un gwastad â'i gilydd, a phawb, drwodd a thro, yn byw'n gytûn, a phob amser yn hael eu cymorth – a'u cydymdeimlad – pan oedd amgylchiadau'n gofyn am hynny.

Yn Chwarel y Penrhyn y gweithiai'r nifer go fawr o ddynion Braichmelyn a'r merched gartref yn cadw tŷ, golchi, smwddio a magu plant. Tlodaidd iawn oedd sawl aelwyd yn yr ardal a theimlwn i'r byw pan awn heibio i un

cartref llwm a thlawd lle'r oedd gŵr a gwraig oedrannus yn byw. Byddwn yn mynd heibio'r tŷ o bryd i'w gilydd a gweld yr hen wreigan ar ei gliniau, mewn ffedog fras, yn golchi'r pum stepan o lechi gleision, a arweiniai at garreg y drws, efo llefrith-wedi-suro! Weithiau, pan fyddai'r drws ffrynt yn agored, cawn gipolwg ar lawr y 'gegin', wedi'i orchuddio â chrawiau llechi y byddai'r hen wreigan yn eu sgwrio'n lân efo'r llefrith-wedi-suro.

Fel pawb arall, mae ffrindiau bore oes, a'r plant oedd yn cydoesi â fi, yn dŵad yn ôl i'r cof o bryd i'w gilydd. Byddaf yn cael sgwrs efo ambell un ar y ffôn yn aml, fel Emyr Vaughan oedd yn byw yn 1 Gernant, gyda'i rieni (Jack a Gracie Jones) a'i frawd, Trefor. Ac un arall o Gernant oedd Winifred, sy'n byw yn Ne Cymru efo'i phriod, Brian (Huggett), y golffiwr enwog. Cofiaf fel y byddai Brian yn dŵad i 15 Gernant a phlant y lle yn tyrru o gwmpas ei gar mewn edmygedd llwyr. Byddaf yn cael sgwrs ar y ffôn efo'r ddau o bryd i'w gilydd ac mae Winnie bob amser mor falch o gael sgwrs yn Gymraeg.

Gallwn fynd ymlaen ac ymlaen fel hyn am hydoedd, gydag ambell atgof yn tanio un arall o hyd. Gwaetha'r modd, rhaid tewi rhag mynd dros ben llestri a dwyn gormod o le yn *Llais Ogwan*! Os oes gynnwys chi, ddarllenwyr *Llais Ogwan*, ambell atgof difyr, doniol a allai fod o ddiddordeb i eraill, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthyhch.

Mi ddo' i â'r 'atgofion' hyn i ben drwy sôn amdanaf yn cael fy nghamarwain, yn hollol ddamweiniol, gan fy mam i feddwl ei bod yn hanu o deulu cefnog oedd yn byw'n fras ac yn bwyta tyrchi yn aml, nid ar Ddiwrnod Nadolig yn unig fel y clywswn y gwnâi ambell deulu. Ymhen amser, deuthum i ddeall mai pryd syml iawn oedd y 'Tyrchi Pei' a fwynhâi fy mam yng nghwmni ei rhieni a'r chwaer a'i thri brawd. Cewch wybod beth oedd 'Tyrchi Pei' yn rhifyn nesaf *Llais Ogwan*!

Fy nymuniadau gorau, a blwyddyn newydd well, i bawb ohonoch sydd wedi bod yn ffyddllon a chefnogol i 'Pwy sy'n cofio ddoe?' ar hyd y blynyddoedd.

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



CAR CARE CENTRE

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Eisiau gweithio gyda phlant bach?



Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.

Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!

Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –

www.meithrin.cymru/swyddi

Angen cymhwyster gofal plant?
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –

www.meithrin.cymru/prentisiaeth

Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru neu ffoniwch 01970 639639



Rhif alicen: 1022320